# Daearyddiaeth

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3







**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Daearyddiaeth

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

**Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

**Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn daearyddiaeth. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Camau i'w cymryd** Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig** *Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0002
ISBN: 978 0 7504 4614 3

A-EAC-02-01-044/KE
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008
WG30202

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Defnyddio'r deunyddiau hyn** 4

**Adran 1**

Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn daearyddiaeth 7

**Adran 2**

Disgwyliadau a dilyniant mewn daearyddiaeth 27

**Adran 3**

Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2 37

Eurig – nodweddion o Lefelau 3 a 4 39

Megan – nodweddion o Lefelau 4 a 5 49

Garmon – nodweddion o Lefelau 4 a 5 59

**Adran 4**

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 69

Ceri – Lefel 5 71

Darius – Lefel 6 78

Carys – Lefel 7 90

**Cydnabyddiaethau** 102

# Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

## Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n bedair adran.

| | |
|---|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn daearyddiaeth. |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn daearyddiaeth. |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 2. Diben y rhain yw dangos nodweddion y disgrifiadau lefel. |
| Adran 4 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn daearyddiaeth diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae CD-ROM wedi ei ddarparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'n cynnwys fersiwn PDF o *Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

# Adran 1

## Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn daearyddiaeth

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eich helpu chi i gynllunio ar gyfer addysgu'r rhaglenni astudio diwygiedig fel eu bod yn berthnasol ac yn ysgogol i bob dysgwr, hynny yw canolbwyntio ar y dysgwr. Dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau trwy amrywiaeth eang o gyd-destunau, lleoedd, amgylcheddau a materion, a nodir o dan y pennawd Ystod. Dylech chi ddefnyddio Sgiliau ac Ystod fel fframwaith hyblyg i ddewis cyd-destunau ac i ddatblygu gweithgareddau, a fydd yn berthnasol ac yn ysgogol i'r dysgwyr.

## Datblygu ffocws ar Sgiliau

Dylai eich cynllun gwaith sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu, ymarfer a chymhwyso'r pedwar sgìl a nodwyd yn y rhaglenni astudio ar gyfer daearyddiaeth a'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Dylai cynnydd wrth Leoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau, Deall lleoedd, amgylcheddau a phatrymau, Ymchwilio a Chyfathrebu fod yn brofiad perthnasol a realistig er mwyn i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd. Byddai cwestiynau defnyddiol i arwain eich cynllunio a datblygu canolbwynt sgiliau yn cynnwys:

- Ydw i wedi cynllunio dilyniannau gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau?
- Pa sgìl ddaearyddol o'r rhaglen astudio mae'r wers hon yn ei datblygu?
- Beth ydy diben y gweithgaredd hwn? Ydy'r gweithgaredd hwn yn cyflwyno sgìl newydd, yn cyfnerthu sgìl neu'n cymhwyso ac yn ymestyn sgìl?

Mae cynllun gwaith yn fwy tebygol o gefnogi datblygiad ystod o sgiliau os bydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio'n ymarferol a chymryd rhan weithredol, gan ddefnyddio profiad personol ac ymchwilio rhagweithiol
- gweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn grwpiau, yn unigol, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored o amgylch yr ysgol ac mewn gwaith maes
- defnyddio sgiliau meddwl i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol am eu daearyddiaeth
- defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn cynnwys:**

- defnyddio dull ymholi i annog dysgwyr i ofyn a dod o hyd i atebion i gwestiynau perthnasol (Megan, Cyfnod Allweddol 2; Ceri, Cyfnod Allweddol 3)
- cynnal gwaith maes; gan gynnwys nodi cwestiynau i ymchwilio iddyn nhw, casglu a dethol gwybodaeth, e.e. trwy arsylwi, mesur neu ymchwil, a gwerthuso pam gallai'r wybodaeth fod yn anghyflawn neu'n gamarweiniol, e.e. trwy gynnal arolwg o farn y cyhoedd (Eurig, Cyfnod Allweddol 2; Ceri, Darius a Carys, Cyfnod Allweddol 3)
- defnyddio delweddau gweledol i ddatblygu dealltwriaeth o leoedd a phrosesau, gan ddefnyddio awyrluniau i adnabod nodweddion a phatrymau (Garmon, Cyfnod Allweddol 2 – Bae Caerdydd; Carys, Cyfnod Allweddol 3 – trawstoriad o afon) neu i nodi patrymau neu brosesau penodol
- defnyddio mapiau, ffotograffau neu ddata i nodi a dadansoddi gwahaniaethau rhwng lleoedd neu newidiadau dros amser (Garmon, Cyfnod Allweddol 2; Carys, Cyfnod Allweddol 3)
- dadansoddi data trwy drefnu a dilyniannu, dosbarthu neu raddio i adnabod tueddiadau a phatrymau; gan ddefnyddio diagram Venn i archwilio nodweddion sy'n debyg a gwahaniaethau (Eurig, Cyfnod Allweddol 2 – Roscoff) neu graff byw (Darius, Cyfnod Allweddol 3 – hinsawdd Mallorca)
- defnyddio mapiau, atlasau, Google Earth, gwefan yr Arolwg Ordnans, Geograph neu wefannau systemau gwybodaeth daearyddol (GIS) ynghyd ag awyrluniau i ddod o hyd i leoedd ac i adnabod nodweddion a phatrymau ardal, e.e. ffermydd gwynt (Garmon, Cyfnod Allweddol 2 – Bae Caerdydd)
- creu llinfapiau sy'n dangos lleoliad lleoedd a nodweddion (Eurig, Cyfnod Allweddol 1 – yr ardal leol; Ceri, Cyfnod Allweddol 3 – Pentir a Bae Cricieth)
- ateb cwestiwn trwy gynhyrchu ymateb strwythuredig ar ffurf ysgrifennu estynedig (Carys, Cyfnod Allweddol 3 – Mt. St. Helens)
- ymchwilio i fater a rhoi cyflwyniad i aelodau eraill o'r dosbarth i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a dangos dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau, e.e. ynglŷn â mater datblygu/cynaliadwyedd (Carys, Cyfnod Allweddol 3 – Periw)

- defnyddio asesu gan gyfoedion; mae'r dysgwyr yn ysgrifennu testun, cyflwyno adroddiad neu'n rhoi cyflwyniad sy'n cael ei werthuso gan eu cyfoedion yn erbyn meini prawf penodol sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd y disgrifiad neu'r esboniad (Carys, Cyfnod Allweddol 3 – Periw)
- cymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau ynglŷn â datblygu (Garmon, Cyfnod Allweddol 2 – Lesotho) neu wneud penderfyniadau, e.e. am ddatblygiad cynaliadwy yn Amasonia (Ceri, Cyfnod Allweddol 3)
- cymharu patrymau a/neu brosesau wrth astudio lleoedd, materion neu ddigwyddiad (Eurig, Cyfnod Allweddol 2 – Roscoff a'r ardal leol; Darius, Cyfnod Allweddol 3 – Mt. St. Helens a daeargrynfeydd Nevado del Ruiz).

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd cyfyngedig yn unig i ddatblygu sgiliau a/neu ddealltwriaeth a dylid eu hosgoi os ydy'n bosib yn cynnwys:**

- copïo diagramau neu destun heb unrhyw ofyniad i drin, addasu neu gymhwyso gwybodaeth
- ymarferion 'lliwio' sy'n cymryd amser ac nad ydyn nhw'n datblygu sgìl na dealltwriaeth ddaearyddol
- ymchwilio ar y rhyngrwyd, lawrlwytho, torri a gludo heb ofyniad i ddethol a defnyddio deunyddiau i ymchwilio i gwestiwn daearyddol
- cynhyrchu posteri neu bamffledi a all fod yn ddisgrifiadol iawn gyda deilliannau dysgu cyfyngedig y tu hwnt i sgiliau cyflwyno
- dilyn cwestiynau ymholi nad oes ganddyn nhw unrhyw berthnasedd amlwg i ddaearyddiaeth a fyddan nhw ddim yn datblygu dealltwriaeth ddaearyddol.

## Gweithredu'r Ystod

Dylai'r cyd-destunau a ddewisir ar gyfer eich cynllun gwaith gynnwys, o leiaf, y rheiny a restrir o dan y pennawd Ystod, a gynlluniwyd i sicrhau cydbwysedd ac ehangder ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol. Wrth lunio eich cynllun gwaith dylai'r ffocws fod ar y dysgwr ac, wrth ddewis cyd-destunau amrywiol, dylech chi ofyn y cwestiwn 'Pa mor berthnasol yw'r cyd-destun hwn ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol hon?' Mae'r Ystod wedi'i llunio i gynnig hyblygrwydd er mwyn i chi ddewis topigau a dulliau a fydd yn berthnasol i ddysgwyr.

Gellir ymdrin â'r cyd-destunau'n unigol neu gyda'i gilydd. Nid oes angen yr un faint o amser astudio arnyn nhw o reidrwydd. Gellir eu defnyddio fel fframwaith hyblyg y gellir archwilio pynciau daearyddol perthnasol cyfredol eraill oddi mewn iddo fe, sydd o ddiddordeb i ddysgwyr.

**Mae enghreifftiau o wahanol ffyrdd gellid eu defnyddio i gynnwys gofynion Ystod y rhaglen astudio yn cynnwys y canlynol:**

- ymdrin â phob eitem yn yr Ystod fel topig annibynnol, e.e. un ardal neu un thema
- cyfuno eitemau o'r Ystod, e.e. cyfuno agweddau ar gynaliadwyedd ag astudio ardal neu thema benodol
- estyn pwnc neu thema i gynnwys agwedd ddaearyddol nad ydy wedi'i rhestru'n benodol yn yr Ystod, ond y gellid ei defnyddio i ddatblygu'r sgiliau a restrwyd. Gallai gynnwys pwnc neu weithgaredd y mae gan yr ysgol ddiddordeb neu arbenigedd penodol ynddo, e.e. yng Nghyfnod Allweddol 3 byddai'n bosibl cynnwys mwy am y tywydd a'r hinsawdd yn 'Y byd ffisegol: astudio prosesau arfordirol neu afonydd' neu beryglon hinsoddol mewn 'Amgylcheddau dan fygythiad' neu 'Y byd peryglus' (Darius, Cyfnod Allweddol 3 – Maldives)
- datblygu cyd-destun a luniwyd gennych chi o agweddau ar yr Ystod, e.e. uned i ddatblygu sgiliau ymchwilio a chyfathrebu ac i gysylltu â phrosiect ysgol traws-gwricwlwm fel 'Wythnos dinesydd byd-eang' neu 'Pythefnos bwyd a ffitrwydd'. Gallai gweithgaredd i ystyried 'O ba ran o'r byd mae bwyd yn dod a pham?' ddatblygu sawl sgìl gan gynnwys sgiliau gwaith map, deall prosesau economaidd, adnabod patrymau, a safbwyntiau a barn am faterion cynaliadwyedd fel milltiroedd bwyd.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnig canllawiau ychwanegol ar elfennau o'r Ystod, gan gynnwys y rheiny sy'n newydd i'r rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer daearyddiaeth.

**Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Ymchwilio**

Dylid cynllunio gweithgareddau ar draws y cyfnodau allweddol i ddatblygu sgiliau dysgwyr mewn ymchwilio. Mae ymchwiliadau'n cynnig cyfleoedd ar gyfer profiad ymholi go iawn lle mae'r dysgwyr yn gofyn eu cwestiynau eu hunain, yn chwilio am atebion eu hunain ac yn datblygu dealltwriaeth. Gall y dull ymholi osod y dysgwr yng nghanol y profiad dysgu.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid cefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio dull ymholi/ymchwiliol o weithio yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored. Yn benodol, dylen nhw gael cyfleoedd i ofyn cwestiynau a datblygu eu sgiliau i fesur a chasglu data eu hunain trwy waith maes. Dylech chi sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd trwy'r cyfnod allweddol i ddatblygu'r sgiliau ymchwiliol hyn, er enghraifft, dechrau llunio dilyniannau byr o gwestiynau a defnyddio'r data a gasglwyd ganddyn nhw i ddod i gasgliadau.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymchwilio i gwestiynau mwy cymhleth a bod yn fwy annibynnol, dadansoddol a gwerthusol yn eu gwaith ymholi. Nid oes angen i ymchwiliadau fod yn ddarnau mawr iawn o waith a dylid osgoi eu datblygu'n brosiectau disgrifiadol hir a distrwythur. Yn hytrach, dylen nhw gynnig cyfleoedd i ddysgwyr, yn yr ystafell ddosbarth a thrwy waith maes, ymarfer ac ymdrin â phob cam ymchwilio, yn enwedig y rheiny sydd angen sgiliau dadansoddi, dysgu a gwerthuso.

Yn ystod y cyfnod allweddol, dylai dysgwyr gynnal o leiaf un ymchwiliad grŵp cyfan ac un ymchwiliad annibynnol, a dylai gofynion y rhain annog datblygu tuag at ymchwil a gwaith maes TGAU.

**Cynllunio ar gyfer ymchwilio: rhestr wirio**

### Gofyn cwestiynau

- Ydy'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn berthnasol, h.y. yn ddaearyddol?
- Ydy'r dysgwyr yn cael eu cefnogi i drefnu dilyniant yn hytrach na chasgliad o gwestiynau yn unig?

Nid ydy'r holl gwestiynau y bydd dysgwyr yn eu gofyn o reidrwydd yn ddefnyddiol o ran daearyddiaeth. Yn yr un modd, mae cwestiynau sy'n cynhyrchu ymatebion disgrifiadol yn unig i 'Beth?' heb angen ymateb i 'Ble?' neu 'Pam?' yn annhebygol o ddatblygu dealltwriaeth ddaearyddol. Er enghraifft, gallai'r cwestiwn 'Beth mae pobl yn ei fwyta yn Burkina Faso?' gynhyrchu gwybodaeth ddisgrifiadol yn unig. Mae angen gofyn y cwestiwn dilynol 'Pam?' er mwyn annog ymchwilio i nodweddion naturiol neu ddynol yr ardal neu ffactorau fel y tywydd neu rwydweithiau cludiant a allai ddarparu esboniad.

### Casglu a chofnodi data

- Ydy cyfleoedd wedi eu darparu i ddysgwyr wneud eu mesuriadau eu hunain?
- Ydy lleoliad ac amser casglu data wedi cael eu nodi?
- Ydy llinfap o'r lleoliad wedi cael ei lunio?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu dweud pa mor gywir yw eu data neu beidio, a pham?

### Trefnu a dadansoddi

- Ydy'r dysgwyr yn gallu adnabod a dehongli'r hyn y mae'r data yn ei ddangos?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu dadansoddi'r safbwyntiau a gasglwyd yn eu harolwg?

Anogwch y dysgwyr i anodi tablau neu graffiau neu fynd trwy'r hyn maen nhw'n gallu ei weld yn yr wybodaeth. Er enghraifft, fel dehongliad cychwynnol, ydyn nhw'n gallu nodi'r uchaf/isaf, y lleiaf/mwyaf neu'r cyfartaledd? Cynorthwywch y dysgwyr i adnabod gwahaniaethau o un lle i'r llall ac o un cyfnod i'r llall, a dechrau gweld y 'darlun mawr' o ran tueddiadau a phatrymau.

### Dod i gasgliadau

- O'r data a drefnwyd ganddyn nhw, ydy'r dysgwyr yn gallu dod i gasgliadau ffeithiol am y nodweddion tebyg a chyferbyniol, yr achosion ac effeithiau neu'r rhyngweithio rhwng nodweddion neu brosesau?
- Ydyn nhw'n gallu dechrau datblygu esboniadau?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu pwyso a mesur y dystiolaeth i wneud penderfyniadau neu gefnogi safbwynt?

### Gwerthuso'r ymchwiliad

- Ydy'r dysgwyr yn gwerthuso eu hymchwiliadau?

Anogwch y dysgwyr i fyfyrio ar eu gwaith trwy ymateb i gwestiynau gwerthusol fel:

- Lwyddais i gwblhau'r hyn y ceisiais ei gyflawni?
- Sut gallwn i fod wedi gwella fy ymchwiliad?
- Pa mor ddilys oedd fy nghanlyniadau?
- Sut gellid bod wedi estyn yr ymchwiliad hwn?
- Beth mae angen i mi ymchwilio iddo fe nesaf?
- Beth ydw i wedi ei ddysgu?

### Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Gofyn ac ateb cwestiynau

Mae pob rhaglen astudio yn darparu rhestr o gwestiynau allweddol sy'n sail i ddysgu mewn daearyddiaeth. Maen nhw'n gyffredinol i bob cyd-destun a gellir eu defnyddio i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau mewn daearyddiaeth. Gellir crynhoi'r cwestiynau hyn fel a ganlyn – 'Pwy?', 'Beth?', 'Ble?', 'Pryd?' a 'Pham?' Mae'r cwestiynau'n darparu patrwm er mwyn annog y dysgwr i ddatblygu y tu hwnt i ddisgrifio, a mynd ymlaen i ddadansoddi ac esbonio trwy ddull ymchwiliol.

### Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Gwaith maes

Mae'n ofynnol yn y rhaglenni astudio bod dysgwyr yn cynnal gwaith maes i arsylwi ac ymchwilio i leoedd a phrosesau go iawn. Mae ymweliadau a gynlluniwyd â gwahanol rannau o Gymru neu deithiau cyfnewid i ysgolion mewn gwledydd eraill yn rhoi cyfle i ddysgwyr weld y byd go iawn ac ehangu eu profiadau. Fodd bynnag, dylid hefyd darparu cyfleoedd i ddysgwyr gynnal ymchwiliadau gwaith maes ymarferol er mwyn ymarfer, datblygu a gwella eu sgiliau. Wrth gynnal gwaith maes dylai dysgwyr fesur a chasglu data eu hunain, boed hynny ar dir yr ysgol, yn yr ardal leol neu'n ehangach (gweler pob un o'r proffiliau dysgwyr enghreifftiol).

### Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Daearyddiaeth yn y newyddion

Fel rhan o'r rhaglenni astudio, mae'n ofynnol i ddysgwyr astudio 'Daearyddiaeth yn y newyddion' er mwyn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth fod 'daearyddiaeth o'u cwmpas ym mhob man' ac yn berthnasol i'w bywydau pob dydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd angen i chi ddatblygu strategaethau ar gyfer cynnwys 'Daearyddiaeth yn y newyddion' yn eich cynllun gwaith, a fydd yn cydbwyso'r angen am ddisyfydrwydd â'r angen am gynllunio at y dyfodol. Ni fydd pob eitem newyddion yn ddaearyddol nac yn cynnwys cyfleoedd amlwg i ddatblygu sgiliau daearyddol. Mae eitemau newyddion y mae'r cwestiynau allweddol yn berthnasol iddyn nhw'n debygol o awgrymu y gellir ystyried yr eitem fel 'Daearyddiaeth yn y newyddion', e.e. 'Ble mae'n digwydd?', 'Pa fath o le yw hwnnw?', 'Sut a pham y mae'n newid?', 'Pa brosesau sy'n digwydd?', 'Pa batrymau a thueddiadau y gellir eu nodi?', 'Sut mae hyn yn effeithio ar fywydau pobl?'

**Mae enghreifftiau o sut y gellid cynnwys 'Daearyddiaeth yn y newyddion' mewn cynllun gwaith yn cynnwys y canlynol.**

- Daearyddiaeth ar raddfa leol: Uned o waith a gynlluniwyd sy'n defnyddio ymchwiliad lleol i fater/problem gyfredol. Gallai enghreifftiau gynnwys 'Problemau traffig yn ein tref ni', 'Adeiladu parc manwerthu newydd' neu 'Effaith datblygiad diwydiannol newydd' (Eurig, Cyfnod Allweddol 2).
- Enghreifftiau cyfoes: Eitem y gellir ei chynnwys mewn agwedd ar yr Ystod i sicrhau bod pwnc yn gyfoes. Er enghraifft, mae'r dysgwyr yn ymchwilio i effaith llifogydd diweddar fel rhan o ymchwiliad i amgylcheddau peryglus, neu'n cynnal arolwg neu drafodaeth i ddatblygu barn a safbwyntiau am ymfudo (Darius, Cyfnod Allweddol 3 – effaith cynhesu byd-eang ar y Maldives).
- Gwers yn ymwneud â diddordeb cyfredol: Gwers sy'n disodli gwers a gynlluniwyd ar fyr rybudd i ymdrin â digwyddiad dramatig ond sy'n darparu cyfleoedd i fynd i'r afael â datblygu'r un sgiliau â'r gweithgareddau a gynlluniwyd, e.e. gwers ar y tswnami sy'n ystyried patrymau effeithiau, neu achosion ac effaith, neu safbwyntiau/barn.
- Gweithgaredd ymchwil sy'n datblygu dealltwriaeth o brosesau newid trwy ddilyn ymlaen o ddigwyddiad blaenorol, e.e. 'Sut mae Bae Caerdydd yn datblygu?' neu 'Effeithiau'r tswnami dair blynedd yn ddiweddarach'.
- Golwg ar y byd: Gweithgaredd dosbarth byr, arddangosfa wal, amser rheolaidd yn yr amserlen neu gyswllt ysgol â gwledydd eraill, a gedwir yn gyfoes gan y dysgwyr wrth fynd i'r afael â chwestiynau, e.e. 'Ym mha ran o'r byd?', 'Beth sy'n digwydd?', 'Pam?'
- Daearyddiaeth digwyddiad wrth iddo ddatblygu: Dilyn digwyddiad cyfoes neu fater sydd o ddiddordeb i ddysgwyr, e.e. digwyddiad chwaraeon mawr fel Cwpan y Byd neu'r Gemau Olympaidd i ddadansoddi cysylltiadau byd-eang. Ymchwiliad i ledaeniad clefyd, fel clwy'r traed a'r genau neu ffliw adar, a allai gynnig cyfleoedd i ystyried y cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr, defnyddwyr, datblygiad economaidd a chynaliadwyedd.

## Cyfnod Allweddol 2: Dewis agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan

Wrth benderfynu pa agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan i'w chynnwys yn eich cynllun gwaith, byddai cwestiynau defnyddiol i'w hystyried yn cynnwys:

- Fydd yn darparu cyfle i'r dysgwyr ymchwilio i ba fath o le yw Cymru?
- Fydd yn darparu cyfrwng i'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth sylfaenol am ddaearyddiaeth Cymru cyn cychwyn Cyfnod Allweddol 3?

Dylai unrhyw bwnc a ddewisir gael ei gynllunio er mwyn i'r dysgwyr werthfawrogi ffurf a maint Cymru, nodi ei phrif nodweddion naturiol a dynol a gallu meddwl am y cwestiynau allweddol sy'n ymwneud â Chymru. Dyma rai enghreifftiau o ymchwiliadau i agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan:

- Pam mae gennym ni barciau cenedlaethol?
- Pam mae ein hafonydd yn bwysig?
- Ble rydyn ni'n byw?
- Sut a pham mae ein trefi ar yr arfordir yr un fath â'i gilydd neu'n wahanol?
- Sut dywydd a geir yng Nghymru?
- Ymchwilio i ffermydd gwynt yng Nghymru.

Fel arfer, bydd angen i'r agwedd a ddewisir gennych chi gynnwys agweddau eraill hefyd. Er enghraifft, byddai angen ymchwiliad i 'Ble?' a 'Pham?' o ran ffermio yng Nghymru ystyried tywydd Cymru. Yn yr un modd, gallai ymchwiliad i 'Ble?' a 'Pham?' o ran trefi Cymru gyflwyno cefndir naturiol y mynyddoedd a'r afonydd i esbonio lleoliadau'r trefi. Gallai'r agwedd a ddewisir gennych chi hefyd fod yn fodd i gynllunio thema sy'n cyfuno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm, e.e. hanes neu wyddoniaeth.

**Enghraifft o agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan: parciau cenedlaethol**

Mae enghreifftiau o gwestiynau a gweithgareddau ymchwiliol i ddatblygu'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio yn cynnwys y canlynol.

**Sgiliau lleoliadol**

Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i'r cwestiwn 'Ble mae ein parciau cenedlaethol?'

Maen nhw'n archwilio'r lleoliadau gan ddefnyddio atlas. Maen nhw'n ystyried pwy sy'n ymweld â pharc cenedlaethol, o ble mae'r ymwelwyr yn dod a pha mor bell gallen nhw fod wedi teithio. Maen nhw'n disgrifio patrwm lleoliad y parciau cenedlaethol.

**Deall lleoedd**

Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i'r cwestiynau 'Pa fath o leoedd yw'r rhain?' ac 'Ydyn nhw'n wahanol neu'r un fath â'i gilydd?'

Mae'r dysgwyr yn defnyddio ffotograffau, mapiau, map yr Arolwg Ordnans a chyfeiriadau grid i adnabod yr hyn y byddai ymwelwyr yn ei weld yn y parc cenedlaethol. Maen nhw'n cynllunio trip diwrnod i barc cenedlaethol.

**Ymchwilio**

Mae'r dysgwyr yn gweithio'n annibynnol ac mewn grwpiau i gynnal ymchwiliad er mwyn dod o hyd i atebion i gwestiynau daearyddol. Maen nhw'n adnabod cwestiynau i'w gofyn a'u hateb, e.e. 'Sut gallaf i ddarganfod pa fath o dywydd a geir yn y parciau cenedlaethol?' Mae'r dysgwyr yn adnabod cwestiynau eu hunain sydd o ddiddordeb iddyn nhw, e.e. 'Sut gallwn ni wneud parciau cenedlaethol yn well?'

Maen nhw'n casglu gwybodaeth eu hunain, e.e. trwy gynnal arolwg yn yr ysgol am ymweliadau â pharc cenedlaethol. Maen nhw'n casglu gwybodaeth eilaidd trwy wneud ymchwil ar y rhyngrwyd. Maen nhw'n defnyddio Google Earth neu Multimap i gynllunio llwybrau a lleoedd i ymweld â nhw.

**Cyfathrebu**

Mae'r dysgwyr yn cyflwyno eu casgliadau, eu barn, eu safbwyntiau a'u penderfyniadau.

Maen nhw'n rhoi cyflwyniad, e.e. gan gynnwys llinfapiau, ffotograffau wedi'u hanodi, sleidiau PowerPoint, ar y cwestiwn a ddewiswyd ganddyn nhw, e.e. 'Pam fod parciau cenedlaethol yn syniad da?' neu 'Sut gallem ni wella'r mannau i ymwelwyr?'

Gallai'r dilyniant hwn o weithgareddau gynnwys ymweliad â pharc cenedlaethol pryd y gallai'r dysgwyr gael profiad o gasglu gwybodaeth eu hunain trwy, er enghraifft, gynnal arolwg o ansawdd yr amgylchedd neu niferoedd ymwelwyr.

## Cyfnod Allweddol 2: Byw mewn gwledydd eraill: Dewis ardaloedd cyferbyniol

Dylid dewis ardaloedd sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr gymharu eu bywydau eu hunain yng Nghymru â dwy ardal gyferbyniol wahanol mewn mannau eraill o'r byd. Gallwch chi ddewis ardaloedd sydd â gwahanol nodweddion economaidd ac sy'n cyferbynnu mewn rhyw ffordd ag ardal y dysgwr ei hun, e.e. ardaloedd sydd â gwahanol nodweddion naturiol (ffisegol). Dylai'r ardaloedd a ddewisir ddarparu cyfleoedd i adnabod nodweddion sy'n debyg a rhai cyferbyniol rhwng gwledydd a defnyddio cyfuniad o rai o'r canlynol: cyferbyniadau o ran hinsawdd (gwledydd poeth neu oer), cyferbyniadau o ran lleoliad (gwledig neu drefol) a chyferbyniadau o ran cyfoeth (datblygedig yn economaidd neu'n llai datblygedig yn economaidd). Dylid dewis ardaloedd a fydd yn annog arsylwi ac ymchwilio gofalus ac a fydd yn darparu cyfleoedd i herio cyffredinoli a stereoteip am fywydau pobl mewn rhannau eraill o'r byd, e.e. i herio'r rhagdybiaethau bod pawb yn dlawd mewn gwlad Affricanaidd neu fod pawb yn gyfoethog mewn gwlad Ewropeaidd. Gallai ysgolion ddefnyddio cyfleoedd i gysylltu ag ysgolion yn eu hardaloedd cyferbyniol.

Yn nodweddiadol, gallai ardaloedd cyferbyniol fod yn:

- ardal drefol mewn gwlad drofannol, fel Lesotho neu Fotswana, ac ardal wledig mewn gwlad oer, fel y Ffindir
- ardal drefol yn Ewrop neu Tsieina, fel Paris neu Beijing, ac ardal wledig yn India'r Gorllewin drofannol, fel St Lucia.

**Enghreifftiau o gwestiynau daearyddol am leoliadau cyferbyniol**

- Ym mha ffyrdd mae fy ardal i yng Nghymru yn wahanol i…?
- Beth rydw i eisoes yn ei wybod am...?
- Ble mae…?
- Sut byddwn i'n cyrraedd…?
- Sut gallaf ddarganfod mwy am…?
- Pa fath o dywydd a geir? Pam?
- Pa fath o adeiladau sydd yno? Pam?
- Pa fath o swyddi mae pobl yn eu gwneud? Pam?
- Sut mae pobl yn teithio? Pam?
- Sut mae pobl yn defnyddio ac yn gofalu am eu hamgylchedd? Pam?

## Daearyddiaeth a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Defnyddiwyd eiconau yn y Gorchymyn daearyddiaeth i ddangos gofynion penodol ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, wrth gynllunio cynllun gwaith sy'n berthnasol i ddysgwyr, byddwch chi'n adnabod cyfleoedd eraill sy'n cyfoethogi dysgu.

### Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ymchwilio, cynllunio ymchwiliadau a gwneud gwaith maes (Eurig, Cyfnod Allweddol 2; Darius, Cyfnod Allweddol 3)
- casglu, trefnu a dadansoddi gwybodaeth, tynnu casgliadau a llunio barn er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a'r materion daearyddol sy'n effeithio ar y byd o'u cwmpas (Carys, Cyfnod Allweddol 3)
- myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd mewn un cyd-destun er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy haniaethol, a chymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth ystyried gwahanol leoedd, amgylcheddau a materion.

Dylech chi lunio eich cynlluniau gwaith er mwyn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r sgiliau hyn a datblygu eu meddwl daearyddol trwy:

- ddarganfod ble mae **Lleoedd**, a gwerthfawrogi pwysigrwydd lleoliad wrth esbonio cymeriad lleoedd, amgylcheddau a materion
- sylweddoli nad yw nodweddion o'u hamgylch wedi'u dosbarthu'n gyfartal a'u bod yn ffurfio **Patrymau** y mae esboniadau ar eu cyfer
- adnabod ac ymchwilio i'r **Prosesau** sy'n creu nodweddion ac yn achosi newid (Garmon, Cyfnod Allweddol 2)
- adnabod gwahanol **Gysylltiadau**; sut mae prosesau naturiol a dynol yn ymadweithio, yn cydberthyn, yn gydgysylltiedig neu'n gallu bod yn rhyngddibynnol (Darius, Cyfnod Allweddol 3)
- defnyddio eu dealltwriaeth ar wahanol **Raddfeydd** o'r personol i'r lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol a byd-eang.

### Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ddewis, defnyddio, cymhwyso a chyfuno amrywiaeth o sgiliau i gyfleu eu dealltwriaeth ddaearyddol, gan gynnwys trwy ysgrifennu estynedig gyda therminoleg arbenigol, mapiau a delweddau (Carys, Cyfnod Allweddol 3)
- ymchwilio er mwyn caffael gwybodaeth, asesu dilysrwydd a thuedd data ac adroddiadau yn y cyfryngau, ac addasu eu cyflwyniadau eu hunain i wahanol gynulleidfaoedd
- trafod materion daearyddol, datblygu a chyfiawnhau eu syniadau, eu barn a'u safbwyntiau mewn dadleuon a thrwy gyflwyniadau amlgyfrwng (Garmon, Cyfnod Allweddol 2; Ceri, Cyfnod Allweddol 3).

### Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- ddefnyddio sgiliau TGCh i gyrchu'r rhyngrwyd am wybodaeth fyd-eang
- defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS), delweddau lloeren a meddalwedd ar gyfer technoleg fapio i ddadansoddi data ac astudio patrymau daearyddol (Garmon, Cyfnod Allweddol 2)
- defnyddio offer mewn gwaith maes i gasglu a threfnu gwybodaeth a dewis rhaglenni i wella cyflwyniad eu casgliadau (Darius, Cyfnod Allweddol 3).

### Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i:

- gymhwyso sgiliau rhif yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gwaith maes er mwyn mesur, casglu a dadansoddi data (Ceri, Cyfnod Allweddol 3; Carys, Cyfnod Allweddol 3)
- defnyddio gwybodaeth fathemategol i ddeall cyfeiriad, pellteroedd a graddfa, ac er mwyn pennu lleoliadau pan fyddan nhw'n defnyddio cynlluniau, mapiau a globau (Megan, Cyfnod Allweddol 2).

## Daearyddiaeth a dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Gall gweithgareddau daearyddol ddarparu cyfleoedd i ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), a'r Cwricwlwm Cymreig, a phwysleisio perthnasedd daearyddiaeth yn yr unfed ganrif ar hugain i fywydau pob dydd dysgwyr.

### Y Cwricwlwm Cymreig

Gallai gweithgareddau ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr:

- archwilio y tirluniau naturiol a dynol yng Nghymru trwy waith ymchwil a gwaith maes (Megan, Cyfnod Allweddol 2)
- archwilio'r prosesau economaidd sydd wedi newid Cymru a sut y gall y penderfyniadau a wneir ar lefelau lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd effeithio ar ddatblygiad Cymru
- archwilio'r rhesymau dros faterion economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru, gan gynnwys eu cymuned eu hunain (Darius, Cyfnod Allweddol 3).

### Addysg bersonol a chymdeithasol

Gallai gweithgareddau ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddatblygu ymwybyddiaeth o'u swyddogaeth fel dinasyddion lleol a byd-eang ac amrywiaeth y cymunedau yng Nghymru a gwledydd eraill (Eurig, Cyfnod Allweddol 2)
- ymchwilio sut a pham y bydd amgylcheddau'n newid a phwysigrwydd cynaliadwyedd (Ceri, Cyfnod Allweddol 3)
- ymchwilio'r cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr a sut y gall gweithredoedd economaidd ac amgylcheddol pobl mewn un rhan o'r byd effeithio ar fywydau pobl eraill; darganfod gwybodaeth am leoedd a phobl i atal stereoteipio (Carys, Cyfnod Allweddol 3)

- llunio barn wybodus am faterion, datblygu eu safbwyntiau a'u barn eu hunain, a pharchu gwerthoedd ac agweddau pobl eraill (Garmon, Cyfnod Allweddol 2)
- datblygu ymdeimlad o le a hunaniaeth trwy ymchwilio'r cysylltiadau rhwng cymunedau a rhanbarthau yng Nghymru yn ogystal â deall y berthynas rhwng Cymru a gwledydd eraill.

**Gyrfaoedd a'r byd gwaith**

Gallai gweithgareddau ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar yr economi yn eu cymuned lleol, yng Nghymru ac yn fyd-eang, a'r effaith bosibl ar gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys datblygiad eu gyrfa nhw eu hunain
- meithrin sgiliau a thechnegau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys defnyddio GIS, defnyddio a chreu mapiau, gwneud gwaith ymchwil, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.

# *Adran* 2

## Disgwyliadau a dilyniant mewn daearyddiaeth

Mae'r datganiadau isod o'r disgrifiadau lefel wedi'u trefnu i ddisgrifio datblygiad yn y pedwar sgìl ar draws ehangder yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangoswyd trwy astudio'r cyd-destunau yn yr Ystod. Dylid eu defnyddio i lunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu. (*Nid yw datganiadau o'r disgrifiadau lefel Perfformiad Eithriadol wedi'u cynnwys yn y grwpiau hyn.)

**Dilyniant mewn Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau**

1. Bydd y disgyblion yn disgrifio ble maen nhw, gan ddefnyddio termau bob dydd, yn llunio map syml ac yn dilyn cyfarwyddiadau.
2. Byddant yn dod o hyd i wybodaeth o fap, yn llunio mapiau syml gyda symbolau ac yn ymwybodol o gyfeiriadau'r cwmpawd.
3. Byddant yn defnyddio globau a mapiau i ddod o hyd i wybodaeth am leoedd ac yn llunio mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau, ac yn deall cyfarwyddiadau.
4. Byddant yn defnyddio cyfeiriad, pellter a chyfesurynnau syml ar fapiau, atlasau a globau i leoli lleoedd, ac yn llunio mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau priodol. Dechreuant adnabod patrymau dosbarthiadau amlwg o leoedd a'r cysylltiad rhyngddynt.
5. Byddant yn lleoli lleoedd yn fanwl gywir, yn defnyddio cyfesurynnau map, yn deall pellter a chyfeiriad, ac yn llunio mapiau gydag ymdeimlad o raddfa a chyfrannedd. Disgrifiant batrymau daearyddol amlwg a sut y mae lleoedd wedi'u cydgysylltu.
6. Byddant yn llunio ac yn defnyddio mapiau, gan ddangos dealltwriaeth a manwl gywirdeb wrth ddefnyddio graddfa, cyfesurynnau a chyfeiriad. Byddant yn adnabod ac yn disgrifio patrymau daearyddol ac yn cydnabod sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu.
7. Byddant yn llunio ac yn defnyddio cynlluniau a mapiau ac yn cymhwyso sgiliau map yn fanwl gywir i gael gwybodaeth. Byddant yn nodi ac yn esbonio patrymau daearyddol a sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu.
8. Byddant yn dangos ac yn cymhwyso amrywiaeth o sgiliau yn fanwl gywir ac yn alluog. Byddant yn dehongli mapiau i gael gwybodaeth ac yn llunio mapiau a chynlluniau sy'n cyfleu eu dealltwriaeth ddaearyddol. Esboniant sut y mae lleoedd wedi'u cydgysylltu ar wahanol raddfeydd, a sut y bydd patrymau daearyddol yn cael eu ffurfio ac yn newid.

**Dilyniant mewn Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau**

1. Bydd y disgyblion yn adnabod nodweddion lleoedd penodol ac yn ymwybodol bod rhai yn newid.
2. Disgrifiant nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau a chydnabyddant sut y bydd rhai yn newid. Sylweddolant fod gweithredoedd pobl yn effeithio ar yr amgylchedd.
3. Byddant yn adnabod cymariaethau syml ac yn cynnig rhai rhesymau dros nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau. Sylweddolant fod pobl yn cael effaith ar eu hamgylchedd.
4. Dechreuant esbonio nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau a sut a pham y mae lleoedd yn wahanol. Byddant yn adnabod achosion syml newid a chanlyniadau newid ac yn dangos peth dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys eu gweithredoedd eu hunain, wella neu niweidio'r amgylchedd.
5. Byddant yn disgrifio ac yn cynnig esboniadau am nodweddion naturiol a dynol arferol gwahanol gymdogaethau. Byddant yn adnabod rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng lleoedd ac yn disgrifio sut y bydd prosesau a rôl pobl o ran rheoli eu hamgylchedd yn newid lleoedd.
6. Esboniant nodweddion ffisegol a dynol a rhai prosesau. Byddant yn cymharu ac yn cyferbynnu lleoedd, yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid ac yn dechrau adnabod tueddiadau. Disgrifiant sut y mae pobl yn cael effaith ar yr amgylchedd a sut y gall newid bod yn gynaliadwy.
7. Esboniant amrywiaeth o nodweddion a phrosesau ffisegol a dynol, a disgrifiant rhyngweithiadau o fewn a rhwng y prosesau. Byddant yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid, yn adnabod tueddiadau ac yn disgrifio sut y mae pobl yn cael gwahanol effaith ar yr amgylchedd. Byddant yn adnabod materion amgylcheddol ac yn deall sut y gall newid gael ei reoli mewn modd cynaliadwy.
8. Cynigiant esboniadau am ryngweithiadau o fewn a rhwng nodweddion a phrosesau ffisegol a dynol. Byddant yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid, byddant yn adnabod tueddiadau a goblygiadau i'r dyfodol. Byddant yn esbonio'r gydberthynas rhwng pobl ac amgylcheddau ac yn nodi achosion a chanlyniadau materion byd-eang ac amgylcheddol, gan gynnwys cyfleoedd cynaliadwy.

**Dilyniant mewn Ymchwilio**

1. Bydd y disgyblion yn dod o hyd i atebion i gwestiynau syml am leoedd gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir.

2. Byddant yn gofyn cwestiynau syml, yn gwneud sylwadau, yn casglu gwybodaeth dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt.

3. Byddant yn gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau syml, yn arsylwi, yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dod o hyd i atebion i'w gwaith ymchwil.

4. Awgrymant gwestiynau perthnasol, byddant yn arsylwi, yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi data perthnasol, dan do ac yn yr awyr agored, ac yn trefnu gwybodaeth i gyflwyno casgliadau syml i'w gwaith ymchwil.

5. Byddant yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn awgrymu trefn, yn casglu, yn mesur yn fanwl gywir ac yn cofnodi data perthnasol o wahanol adnoddau, gan gynnwys gwaith maes. Byddant yn defnyddio tystiolaeth ac yn tynnu casgliadau rhesymol o'u gwaith ymchwil.

6. Byddant yn adnabod cwestiynau daearyddol perthnasol, yn sefydlu trefn ar gyfer eu gwaith ymchwil, yn dewis, yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi data perthnasol, o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwaith maes. Byddant yn dadansoddi gwybodaeth er mwyn darparu esboniadau rhesymegol ac yn cyflwyno casgliadau sy'n gyson â'r dystiolaeth.

7. Byddant yn defnyddio trefn effeithiol o gwestiynau gyda mwy o annibyniaeth ac yn dewis eu dulliau eu hunain ar gyfer gwaith ymchwil. Byddant yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi'n fanwl gywir ddata mwy cymhleth, gan gynnwys data a gafwyd o waith maes. Byddant yn dadansoddi tystiolaeth i lunio a chyfiawnhau esboniadau dilys a chasgliadau a brofwyd.

8. Byddant yn dangos annibyniaeth wrth adnabod cwestiynau priodol ac yn defnyddio trefn ymchwilio effeithiol, gan gynnwys ar gyfer gwaith maes, ac yn gweithio'n annibynnol i gasglu, mesur a chofnodi data mwy cymhleth yn fanwl gywir. Byddant yn dadansoddi ac yn dehongli tystiolaeth, yn esbonio'r berthynas rhwng achos ac effaith ac yn dod i gasgliadau a brofwyd. Byddant yn gwerthuso eu methodoleg a'u casgliadau ac yn asesu dibynadwyedd tystiolaeth.

**Dilyniant mewn Cyfathrebu**

1. Bydd y disgyblion yn mynegi eu barn am nodweddion lleoedd.
2. Byddant yn mynegi eu barn am amgylchedd cymdogaeth.
3. Byddant yn mynegi eu barn am leoedd, gyda rhai rhesymau, a sylweddolant fod gwahanol farn gan bobl. Cyflwynant wybodaeth mewn amrywiaeth o ddulliau.
4. Byddant yn mynegi eu barn eu hunain a dechreuant ystyried barn a safbwyntiau pobl eraill ar faterion daearyddol. Cyflwynant wybodaeth a syniadau gan ddefnyddio rhai termau daearyddol a dulliau priodol.
5. Byddant yn gwerthuso gwahanol safbwyntiau er mwyn helpu llunio a mynegi eu barn eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau am faterion daearyddol cyfredol. Byddant yn cyfleu eu dealltwriaeth gan ddefnyddio geirfa ddaearyddol gywir a thrwy ddewis dulliau priodol.
6. Byddant yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn, yn gwerthfawrogi barn a safbwyntiau sy'n gwrthdaro, yn cyfiawnhau eu safbwyntiau eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Dewisant a defnyddiant dermau a thechnegau daearyddol yn gywir i gyflwyno gwybodaeth.
7. Byddant yn gwerthuso safbwyntiau a barn sy'n gwrthdaro er mwyn eu helpu i ffurfio a chyfiawnhau eu safbwyntiau eu hunain, ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Byddant yn gwerthuso ffaith a barn ac yn dechrau adnabod tuedd. Dewisant a defnyddiant dermau daearyddol yn fanwl gywir ac amrywiaeth o dechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth.
8. Byddant yn defnyddio eu syniadau eu hunain, ac yn ystyried safbwyntiau a barnau sy'n gwrthdaro i dynnu casgliadau a gwneud penderfyniadau gwybodus am faterion daearyddol cyfredol. Dewisant a defnyddiant amrywiaeth o dermau daearyddol yn fanwl gywir a thechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.

## Dilyniant mewn ystod o wybodaeth a dealltwriaeth

Dylai disgyblion ddatblygu eu sgiliau trwy ystod cynyddol o wybodaeth a dealltwriaeth am leoedd, amgylcheddau a materion o'r ardal leol i raddfeydd cenedlaethol a byd-eang.


## Dilyniant mewn ymwybyddiaeth leoliadol

Mae datblygu ymdeimlad o ymwybyddiaeth ystod neu ofodol yn sgìl bwysig ar gyfer bywyd bob dydd. Mewn daearyddiaeth, dylai disgyblion gael eu cynorthwyo a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau lleoliadol a gwella eu dealltwriaeth ar bob cyfle posibl. Dyma rai ffyrdd allweddol o ddatblygu'r sgiliau hynny:

- sicrhau bod disgyblion yn gallu ateb y cwestiwn 'Ble mae hwn?' ar gyfer pob cyd-destun neu bwnc; os yw'r disgyblion yn ansicr ynglŷn â lleoliad, mae'n annhebygol y byddan nhw'n gallu deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddaearyddiaeth y lle hwnnw
- cynnwys gwaith map yng nghyd-destun y wers er mwyn rhoi perthnasedd a diben iddo fe yn hytrach nag addysgu 'gwers sgiliau map'
- sicrhau bod adnoddau ar gael i'r disgyblion sy'n darparu ymdeimlad clir o le, mapiau o wahanol raddfeydd, atlasau, Google Earth, gwefan yr Arolwg Ordnans, safleoedd GIS, a delweddau o'r awyr ac o loerennau
- cynnal gwaith maes i werthfawrogi graddfa'r byd go iawn
- annog disgyblion i lunio eu llinfapiau eu hunain, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, i gefnogi eu gwaith ysgrifenedig; yn wahanol i lawrlwytho map o'r rhyngrwyd, bydd llunio llinfap yn mynnu bod disgyblion nid yn unig yn cyfuno dealltwriaeth o sgiliau mapio (graddfa, cyfeiriad, ac ati) ond hefyd yn dewis gwybodaeth a fydd yn gallu cefnogi eu dadl neu eu safbwynt a chyfleu dealltwriaeth estynedig
- sicrhau bod llinfapiau a chynlluniau yn dangos dealltwriaeth o'r canlynol:
  - y mathau o nodweddion sy'n bodoli yn ardal y map neu'r cynllun
  - y man mae'r nodweddion hynny wedi'u lleoli o'u cymharu â nodweddion eraill
  - y patrymau sy'n cael eu ffurfio gan safle cymharol nodweddion tebyg a gwahanol
  - sut gellir cynrychioli'r byd go iawn gan symbolau cynyddol haniaethol a graddfa gynyddol gywir.

Mae’r enghreifftiau canlynol yn dangos agweddau ar ddatblygu o ran llinfapiau.

**Gwaith sy’n nodweddiadol o Lefel 3**





Llinfap syml gan ddefnyddio symbolau darluniadol sy’n dangos ystod gyfyngedig o nodweddion daearyddol, ond sydd ag ymdeimlad o safleoedd y nodweddion o’u cymharu â’i gilydd.


**Gwaith sy’n nodweddiadol o Lefel 4**

Mae’r map yn dangos patrwm o ffyrdd mewn ardal leol gyda lleoliadau cywir gan ddefnyddio allwedd sylfaenol, ac mae’n dangos nodweddion fel adeiladau’r ysgol ar ffurf cynllun.



## Gwaith sy'n nodweddiadol o Lefel 5








Defnyddiodd y disgybl fap yr Arolwg Ordnans ar gyfer cyfeirio ato, a lluniodd y map hwn gyda synnwyr o raddfa, cyfrannedd a phellter ar gyfer ardal fwy. Mae'r map yn dangos dealltwriaeth o bellter a chyfeiriad gyda symbolau ar gyfer nodweddion allweddol er nad oes synnwyr gwirioneddol o dopograffeg heblaw trwy gyfrwng symbol lluniadol o ardal fynyddig.

Yn yr ail enghraifft, roedd gan y disgybl hefyd synnwyr eglur o leoliad nodweddion daearyddol. Defnyddiodd amlinelliad wedi'i ddargopïo o'r Eidal fel sail i anodiad, gan dynnu sylw at nodweddion ffisegol allweddol ond cynhyrchodd fap dryslyd trwy ddefnyddio lliwiau baner yr Eidal fel cefndir.

## Gwaith sy'n nodweddiadol o Lefel 6

Fel rhan o ymchwiliad i ddefnydd tir anheddiad lleol, lluniodd y disgybl fap i raddfa er mwyn dangos y nodweddion allweddol a defnydd tir. Dangosir patrwm yr adeiladau yn gywir gan ddefnyddio cysgodi confensiynol ac mae detholiad o adeiladau allweddol wedi'u nodi'n fanwl gan yr allwedd. Mae'r map i raddfa, ond ni ddangosir graddfa er bod map ychwanegol yn yr anodiad yn ddefnyddiol wrth ddangos patrwm, siâp a graddfa gyffredinol yr anheddiad. Mae rhifo ffyrdd a chyfeiriadau i leoliadau cyfagos yn darparu synnwyr cryf o leoliad.



**Gwaith sy'n nodweddiadol o Lefel 7**

Defnyddiodd y disgybl fapiau lleol i ymchwilio i nodweddion ffisegol a dynol ardal yr anheddiad lleol. Mae'r llinfap hwn yn dangos bod y disgybl yn deall y gydberthynas rhwng yr ardaloedd adeiledig a'r afon, e.e. trwy leoli'r bont yn eglur. Mae'n dangos gwahanol batrymau o nodweddion, e.e. y coetir a'r adeiladau, gan gyferbynnu'r ardaloedd adeiledig parhaus sydd i'r gogledd o'r afon â'r patrwm mwy gwasgaredig o adeiladau unigol i'r de.



# *Adran* 3

## Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2

Nid yw'n ofynnol llunio barn diwedd cyfnod allweddol mewn daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, bydd gwybod am nodweddion y disgrifiadau lefel yn eich helpu i adnabod cryfderau'r dysgwyr, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn tynnu sylw at briodweddau arbennig sy'n perthyn i'r gwaith, ac mae'r sylwadau'n cysylltu â nodweddion y disgrifiadau lefel. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod cryfderau'r dysgwyr a'r meysydd y mae angen eu datblygu, a chynllunio ar gyfer dilyniant.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

# Eurig | Nodweddion o Lefelau 3 a 4


Mae Eurig yn ddysgwr 10 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Eurig nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Eurig ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Eurig yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 3 a 4, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Cynlluniodd athrawes Eurig i'r dosbarth ymchwilio i dair agwedd ar yr Ystod sy'n ofynnol gan y rhaglen astudio. Astudiodd y disgyblion eu hardal leol gan gynnal archwiliad gwaith maes ar ansawdd eu hamgylchedd lleol ac ystyried materion ynghylch sut i wella eu hardal leol. Cynhaliwyd arolwg ganddyn nhw hefyd i ganfod o ble roedd bwydydd gwahanol yn dod er mwyn ymchwilio i gysylltiadau rhwng yr ardal leol a'r byd ehangach. Trwy wneud hyn, roedd y disgyblion yn gallu ymchwilio i faterion ynghylch gofalu am leoedd ac amgylcheddau, a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang o'r uned 'Byw yn fy myd fy hun'. Ymchwiliodd i leoliad cyferbyniol yn Ewrop hefyd trwy astudio Llydaw a chanolbwyntio ar ardal Roscoff/Rosko-goz. Roedd y cynllun gwaith am y flwyddyn yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

## Ymchwilio | 'Byw yng Nghymru' Ein hardal leol





Fel rhan o ymholiad, dilynodd y disgyblion lwybrau o amgylch y pentref ac edrychodd ar luniau o nodweddion lleol ac awyrluniau. Lluniodd Eurig *fap gan ddefnyddio allwedd a symbolau* o'r ardal leol (nodwedd o Lefel 3). Darluniadol yw'r map yn bennaf ond mae'n gynrychioliad adnabyddadwy o'r ardal. Er mwyn gwella'r map, mae angen i Eurig ddechrau defnyddio symbolau mwy priodol, cynnwys dangosydd cyfeiriad a datblygu synnwyr cywirach o raddfa.

Mewn grŵp bychan, cynhaliodd y disgyblion waith maes yn yr ardal leol a chynnal arolwg o ansawdd yr amgylchedd trwy ddefnyddio arolwg holiadurol. Defnyddiodd Eurig TGCh i roi'r canlyniadau mewn graff a gwneud rhywfaint o ddadansoddi syml.

Llwyddodd i *gasglu a chofnodi gwybodaeth* (nodwedd o Lefel 3) a chyflwyno'r canlyniadau yn gywir gan ddefnyddio graff gyda chymorth TGCh. Dehonglodd y canlyniadau yn gywir a *daeth o hyd i atebion i'w gwaith ymchwil* (nodwedd o Lefel 3). Mynegodd sylwadau a oedd wedi eu seilio ar ganfyddiadau'r ymholiad.

Er mwyn gwneud cynnydd, mae angen i Eurig gynnig mwy o resymau a chyfiawnhad ar gyfer ei atebion.


Holiadur

Holiadur ar bentref Mynwent y Crynwyr

1. Ydych chi'n byw yn y pentref? YDW / NAC YDW

2. Faint o weithiau ydych chi'n mynd i'r pentref pob wythnos?
1 2 3 4 5 6 7+

3. Isod rhowch marc allan o ddeg (un yn dda a deg yn wael) am y nodweddion canlynol yn seiliedig ar Fynwent y Crynwyr:


Glendid yr afon (llygredd ac ati): 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Cyflwr yr arhosfan bws: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Cyflwr y bwlch ffon: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Lleoliad y groesfan: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Goleuni stryd: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Graffiti: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Cyflwr y Fynwent: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Mannau gwyrdd e.e cae, parc (oes digon): 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Parcio: 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10
Siopau (bwyd,sglodion,gwallt,post): 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Adiwch eich sgor i fyny os gwelwch yn dda a rhowch eich sgor terfynol yma: 61 allan o 100

Diolch am gymryd amser i lenwi'r holiadur: Dosbarth Ogwr

**Ycmhwiliad i amgylchedd y pentref**

**1. Gwnewch graff o ganlyniadau eich holiadur a gludwch y graff yma.**





**2. Beth yw'r peth gorau am y pentref? Pam?**

Y peth gorau yw y croesfan. Mae'n gwneud y pentref yn diogel i coesi'r ffordd i blant.

**3. Beth sydd angen gwella yn y pentref? Sut allwn ni gwella hwn?**

Mae llawer o graffiti yn y pentref . Mae'n gwneud y lle i edrych yn hyll. Hefyd does dim lle da i blant chwarae a dim digol o lle i ceir parcio.

Rydw i'n meddwl bod angen paentio waliau y graffiti yn lliwiau pert. Rydw i eisiau parc a cae pel-droed i blant chwarae. Mae angen lle i ceir parcio so does dim angen i ceir parcio ar y stryd.



# Lleihau. Ailddefnyddio. Ailgylchu.

Gwnewch restr o'r pethau rydym yn taflu yn rheolaidd.


gwastraff bwyd. | papur | caniau
tiniau | boteli plastic | boteli gwidr
Sapns pensil | coed Nadolig | cardfwrdd

Sut gallen ni leihau ein gwastraff?

Ailgylchu ein sbwriel fel papur, carfcold, caniau, tiniau, boteli plastic, boteli gwydr. Ailddefnyddio bocsys pitsa. Dewis bwyd sydd llawer o gwastraff.

Gwnewch restr o'r pethau sydd yn cael eu taflu. Meddyliwch am sut gallen ni ailddefnyddio'r gwastraff.

| Eitem o wastraff | Sut gallen ni ei ailddefnyddio? |
|---|---|
| Bocs pizza | pitsi pel droed |
| iogrt | robots |
| pompom bol | addurniadau Nadolig |
| 3 brigau coed | Ffinisi post |
| darn o pren a band(lastic) | slingshot |
| darn o papur a pipcleanerdd) | seren |



Ailgylchu – o blaid neu yn erbyn.

| Rhesymau dros ailgylchu | Rhesymau yn erbyn ailgylchu |
|---|---|
| Rydym ni angen ailgylchu i achub y coed. | Dydych chi ddim yn gallu ailgylchu popeth. |
| Rydym ni angen ailgylchu i gadw'r amgylchedd yn lân. | Dydych chi ddim yn gallu rhoi popeth yn yr un bin. |
| Rydym ni angen ailgylchu i stopio plant rhag taflu sbwriel i eich ardd. | Mae llawer ailgylchu yn gwneud llygredd. |

Aeth y disgyblion ymlaen i ymchwilio i wastraff ac ailgylchu gan ei fod yn fater pwysig yn eu hardal nhw, ac i ystyried ffyrdd o leihau sbwriel yn eu hardal leol. Cysylltwyd hyn yn agos â gwaith roedden nhw'n ei wneud fel ysgol ar gyfer cynllun dyfarniad eco-ysgolion.


Yn dilyn arolwg, nododd Eurig rai o brif achosion sbwriel a ffyrdd o leihau gwastraff, ac ystyriodd rai o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn ailgylchu. Trwy wneud hyn, *sylweddolodd fod pobl yn cael effaith ar eu hamgylchedd* a *bod gwahanol farn gan bobl* (nodweddion o Lefel 3). Er mwyn datblygu hyn ymhellach, mae angen i Eurig ddefnyddio'r wybodaeth hon i fynegi a chefnogi ei sylwadau ei hun ynghylch lleihau gwastraff a sbwriel.


## Ymchwilio | 'Byw yn fy myd fy hun'
## Pwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang

Fel rhan o ymchwiliad i'w hardal leol, penderfynodd y dosbarth ymholi i gysylltiadau rhwng yr ardal leol a'r byd ehangach trwy ystyried bwyd. Cynhaliodd y disgyblion arolwg ar ble roedd y dewis o fwyd a werthir yn y siop leol yn dod, ac yna roedden nhw'n defnyddio globau ac atlasau er mwyn lleoli a mapio'r lleoliadau. Mewn grwpiau, roedden nhw'n nodi ac yn ystyried rhai materion ynghylch milltiroedd bwyd a masnach deg.

Defnyddiodd Eurig atlas a glôb yn llwyddiannus i ganfod gwybodaeth am wledydd ac i leoli tarddiadau bwydydd ar fap o'r byd yn weddol gywir. Mae e wedi llwyddo i ganfod pa wledydd sydd bellaf o Gymru ac sydd agosaf i Gymru.

Er mwyn datblygu hyn ymhellach, gallai Eurig ddechrau disgrifio'r lleoedd yn fwy manwl, gan ddefnyddio pellter, cyfesurynnau, cyfeiriad a lleoliadau, e.e. trwy enwi'r cyfandir, neu drwy ddisgrifio'r daith o Gymru i wledydd pell. Mae angen iddo fe hefyd ddangos ei fod yn adnabod rhai patrymau syml o ddosbarthiadau amlwg, e.e. mae'r rhan fwyaf o'r ffrwythau yn cael eu tyfu yn agos i'r cyhydedd/ mewn gwledydd cynnes.





# Bwydydd o bedwar ban y byd !

Mae bwydydd ein siopau yn dod o lefydd lleol ond hefyd o wledydd tramor. Tynnwch luniau o gasgliad o fwydydd sydd wedi teithio ymmhell neu'n agos i gyrraedd ein siopau.



Pa fwyd sydd wedi teithio'r pellter mwyaf i'r siop?

Saws Soy Hong Kong sidd fodi teithior mwyaf.

Pa fwyd sydd wedi teithio'r pellter lleiaf i'r siop?

llaeth o cymru sidd fodi teithior lleiaf.

Pa fwydydd ydych chi wedi eu blasu o'r blaen?

lemon sbaen i wedi blasi or blaen.

Pa fwydydd dydych chi ddim wedi eu gweld o'r blaen?


Avacados chile i ddim wedi gweld or blaen.

## Ymchwilio | 'Byw mewn gwledydd eraill' Ardal gyferbyniol yn Ewrop

Astudiodd y disgyblion ardal Ewropeaidd fel rhan o'u rhaglen Blwyddyn 6. Gofynnodd ac atebodd y disgyblion rai o'r cwestiynau a nodwyd yn y rhaglen astudio tra'n ymchwilio i ardal Roscoff/ Rosko-Goz yn Llydaw, e.e. 'Ble mae'r lle hwn?', 'Pa fath o le yw hwn a pham?', 'Sut mae'r lle hwn yn debyg neu'n wahanol i'n hardal leol ni?'

Defnyddiodd y disgyblion ystod o adnoddau eilaidd i ddarganfod ffeithiau am yr ardal gyferbyniol, datblygu ymdeimlad o le a chymharu'r ardal â'u hardal eu hunain. Roedd yr adnoddau yn cynnwys atlasau, mapiau, lluniau, pamffledi a DVD.


Trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn, mae Eurig wedi darganfod ac wedi dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ardaloedd gwahanol a'u nodweddion trwy ddiagram corryn a chwblhau ffrâm ysgrifennu. Yna, mae wedi ceisio crynhoi ei wybodaeth am yr ardal trwy ysgrifennu cerdyn post i'w athrawes.



# Pa fath o le yw Roscoff?

Gan ddefnyddio y dudalen am Roscoff, ysgrifennwch frawddegau llawn am y pethau isod.


| |
|---|
| Llety - ble gallwch aros? Gallwch aros yng Ngwesty Armen Le Triton neu Gwesty Bainaby Bear. |
| Beth allwch fwyta yn Roscoff? Gallwch fwyta Crepes (fel pancos), ffrwythau a llysiau a bwyd y môr. |
| Pa siopau sydd yna? Beth allwch brynu? Mae llawer o siopau bwyd rydych yn gallu prynu pysgod cimwch, crancod. Roedd siopau hefyd i gael rhywbeth i gofio am wyliau. |
| Pa adeiladau eraill sydd yna yn ogystal â siopau? Mae Aquarium neu marchnad. |
| Beth allwch wneud a gweld yna? Gallwch wylio'r pysgotwyr gweld cychod, mynd i'r farchnad |
| Pa swyddi sydd gan y bobl lleol? Mae y bobol leol yn gweithio mewn swyddfa bost, siopau crepes a marchnad. |




Fel dosbarth, roedden nhw wedyn yn edrych ar luniau Roscoff a'u hardal eu hunain a cheisio didoli'r nodweddion i wahanol gategorïau.

Yn dilyn trafodaeth, defnyddiodd yr wybodaeth hon wedyn er mwyn cwblhau diagram Venn i ddangos eu dirnadaeth o rai o'r pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol rhwng y ddau leoliad.

Llwyddodd Eurig i gwblhau'r diagram Venn, ac mewn trafodaethau gyda'i athrawes yn ystod y gweithgareddau hyn, roedd e'n gallu esbonio ei ddewisiadau a rhoi rhai rhesymau am nodweddion naturiol a dynol y ddwy ardal. Wrth wneud hyn, roedd e'n *adnabod cymariaethau syml ac yn cynnig rhai rhesymau dros nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau* (nodwedd o Lefel 3).


Cymharu Roscoff a'r ardal leol
Roscoff
Yr ardal leol
1. Pysgota
2. Afon
3. Ynysoedd
4. Glan-y-môr
5. Cafes
6. Ffatrioedd
7. Fferi
8. Gwestai
9. Creperies
10. Traffig
11. Sinema
12. Dyffryn
13. Bryniau
14. Aquarium
15. Pizzas
16. Glaw
17. Cyfeillgar
18. Diogel
19. Siopau
20. Diddorol
21. Rheilffordd

**Crynodeb**

Mae proffil Eurig yn dangos rhai nodweddion o Lefel 3 a Lefel 4 ond nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Mae e'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o gymeriad gwahanol leoliadau ac amgylcheddau. Mae e'n gallu defnyddio globau ac atlasau i ganfod gwybodaeth ac i leoli lleoedd (lleoliadau gwledydd) ac mae e'n gallu cynhyrchu map sy'n weddol gywir, gydag allwedd iddo fe.

Mae e'n gallu adnabod a disgrifio nodweddion daearyddol a chynnig peth cymariaethau ac esboniadau syml (rhywfaint o hyn ar lafar). Mae e'n *adnabod cymariaethau syml ac yn cynnig rhai rhesymau dros nodweddion naturiol a dynol gwahanol gymdogaethau* (nodwedd o Lefel 3). Yn y gwaith ar yr ardal leol, mae Eurig yn gwybod bod pobl yn effeithio ar eu hamgylchedd a bod gan bobl wahanol farn ar faterion.

Yn ei ymchwiliadau, mae e'n arsylwi, casglu a chofnodi gwybodaeth ac yn ymateb i gwestiynau syml strwythuredig gan yr athrawes. Mae e hefyd wedi elwa o weithio mewn grŵp (mewn gwaith maes lleol). Mae e'n defnyddio ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd, e.e. holiadur a lluniau, ac mae e'n darganfod rhai atebion i'r ymchwiliadau.

Trwy'r holiadur, mae e'n deall bod gan bobl wahanol farn am faterion ac mae e'n gallu mynegi rhai o'i sylwadau ei hun ynghylch lleoedd. Mae e'n cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mapiau, graffiau, a diagramau corryn a Venn.

Ar y cyfan, roedd yr athrawes o'r farn fod Eurig wedi gwella ym mhob un o'r sgiliau yn y rhaglen astudio, yn enwedig mewn lleoli lleoedd a deall cyffelybiaethau a gwahaniaethau. Fel y cam nesaf, mae angen i Eurig ddatblygu ei ddisgrifiadau a'i esboniadau ynghylch lleoliad, nodweddion a chymariaethau rhwng lleoedd trwy ateb y cwestiwn 'pam?'. Bydd angen cefnogaeth arno fe i ddechrau deall y cysyniad o batrwm. Dylid ei annog i fynegi a rhoi rhesymau am ei sylwadau ei hun ac i ystyried sylwadau a barn pobl eraill.

# Megan | Nodweddion o Lefelau 4 a 5

Mae Megan yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.


Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Megan nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Megan ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Megan yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Cynlluniodd athro Megan i'r dosbarth ymchwilio i dair agwedd ar yr Ystod sy'n ofynnol yn y rhaglen astudio. Mewn uned ar 'Fyw yng Nghymru', roedden nhw'n ymchwilio i'w hardal leol gan ddefnyddio ystod o adnoddau a TGCh tra eu bod yn datblygu eu sgiliau lleoli a mapio. Arweiniodd hyn at waith ar y parciau cenedlaethol fel agwedd ar ddaearyddiaeth Cymru gyfan. Roedd hyn yn darparu cyfle i ymchwilio i rai agweddau amserol o 'Daearyddiaeth yn y newyddion' fel cynhesu byd-eang, ynni gwynt, cadwraeth amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy. Cynlluniodd yr athro hefyd i'r disgyblion ymchwilio i ardal gyferbyniol mewn gwlad tu allan i'r Deyrnas Unedig (India). Roedd y rhaglen yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

## Ymchwilio | 'Byw yng Nghymru'
## Yr ardal leol yng nghyd-destun Cymru

Edrychodd y disgyblion ar eu hardal eu hunain o fewn Cymru gan ddefnyddio atlas, awyrlun a mapiau. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau map y disgyblion. Yma, defnyddiodd Megan Fap Arolwg Ordnans a TGCh i ateb cwestiynau a lleoli nodweddion. Dangosodd ei bod hi'n gallu *defnyddio cyfeiriad, pellter a chyfesurynnau syml ar fapiau* (nodwedd o Lefel 4).




©Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif trwydded 100017916 2007.

## Cwestiynau

**Pa le sydd ar y map?**
**Ateb**: Caerffili

**Beth yw rhifau'r llinellau sy'n mynd i fyny?**
**Ateb:** 53,54,55,56.

**Beth yw rhifau'r llinellau sy'n mynd ar draws?**
**Ateb:** 14,15,16,17

**Beth yw cyfeirnod grid?**
1. Graig yr Allt – 1453
2. Castell Caerffili –1655.
3. Ysbyty-1554.

**Beth yw'r symbol yn 1653 sy'n dangos uchder y tir a pha mor uchel yw e?**
**Ateb**: Triongl glas gyda dot glas yn y canol.

**Beth yw'r Cyfeiriad o'r symbol i'r castell?**
**Ateb:** De

## Gweithgareddau

**Defnyddiwch 'call-out boxes' i ddangos y symbolau canlynol:**

Gorsaf trennau
Eglwys â thŵr
Castell
Coed Conwydd

**Dangoswch cyfeiriadau'r cwmpawd ar y map.**

**Mae Cwrs golf far y map. Ble mae e a pha symbol sy'n dangos y cwrs golff?**

**Cyfeirnod grid:** 1654

**Symbol:** Baner du. Mae'n dweud ar y daflen allwedd ac ar y gwefan


**Yn olaf:**
**Ydych chi'n gallu ffeindio unrhyw symbolau eraill ar y map?**
**Dewiswch un arall i ddangos ar y map.**

**Edrychwch ar y gwefan canlynol i'ch helpu**
http://www.ordnancesurvey.co.uk/oswebsite/education/pdf/25knewEGMlegend.pdf





Defnyddiodd y disgyblion y feddalwedd Clicmap, sydd ar wefan GCaD Cymru, a bwrdd gwyn rhyngweithiol i leoli eu hardal eu hunain ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddaearyddiaeth Cymru gyfan.

Gan ddefnyddio atlas a chyfres o awyrluniau lletraws ar gyfer lleoliadau o amgylch Cymru, ymchwiliodd a chyflwynodd Megan rywfaint o wybodaeth am leoedd penodol, a lleolodd nhw ar fap o Gymru. Roedd hi'n gallu gwneud hyn yn gywir gan ddefnyddio rhai termau daearyddol ('arfordir y Gorllewin', 'i'r gogledd o Gaerdydd', 'copa'r Wyddfa') a dechreuodd hi adnabod rhai cysylltiadau (swyddogaeth pontydd).




Gofynnwyd i'r disgyblion ddehongli'r llun ymhellach er mwyn cynhyrchu llinfap a oedd wedi ei labelu o leoliadau o amgylch Cymru a nodi nodweddion dynol a ffisegol. Yn yr enghraifft hon, cynhyrchodd Megan linfap a oedd wedi ei labelu gan ddefnyddio rhai termau daearyddol da (culfor), a llwyddodd i rannu'r rhain naill ai'n nodweddion dynol neu nodweddion ffisegol. Wrth wneud gwaith dilynol, trafododd yr athro gyda Megan os oedd 'cae' yn nodwedd ffisegol neu'n nodwedd ddynol.



**Ymchwilio** | **'Byw yng Nghymru'**
**Mater lleol: ynni gwynt**


**Ymchwilio** | **'Byw yn fy myd fy hun'**
**Gofalu am leoedd ac amgylcheddau**

Cynlluniodd yr athro i gyfuno'r ddwy agwedd ar yr Ystod. Defnyddiwyd map, graff a rhai lluniau i annog y disgyblion i feddwl am a gofyn cwestiynau yn ymwneud â 'Daearyddiaeth yn y newyddion'. Dehonglodd Megan nifer o faterion allweddol a godwyd yn sgîl y deunydd ysgogol (y byd yn poethi, llygredd ceir, Antarctica yn mynd yn llai) gydag un camgymeriad (tymheredd yn gostwng). O hyn, *awgrymodd gwestiynau perthnasol* (nodwedd o Lefel 4), e.e. 'Pam mae'r gwres yn codi?', 'Pryd bydd Antarctica yn diflannu?', 'Beth allwn ni wneud i helpu?'



Yn dilyn rhywfaint o ymchwil i achosion cynhesu byd-eang, ymchwiliodd y disgyblion wedyn i rai o'r materion ynglŷn â rheoli'r amgylchedd ym mharciau cenedlaethol Cymru a chynhyrchu ynni cynaliadwy trwy ddefnyddio ffermydd gwynt.

Nododd Megan rai o'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn adeiladu ffermydd gwynt mewn tabl syml, a dangosodd hi ar ffurf erthygl bapur newydd werthfawrogiad o farn a safbwyntiau pobl eraill ar faterion daearyddol. Cyflwynwyd yr wybodaeth mewn fformat priodol *gan ddefnyddio rhai termau daearyddol* (nodwedd o Lefel 4) (allyriad ymbelydrol, ymyrraeth electromagneteg).


**Adeiladu Melinoedd Gwynt yn Y Parciau Cenedlaethol**

**O blaid?**

**Yn erbyn?**




Trwy gwblhau'r daflen waith ar 'Yr amgylchedd', mae Megan yn *dangos peth dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd* (nodwedd o Lefel 4).


## Yr Amgylchedd

Nôd y wers:

- *Dysgu am rai o'r ffyrdd y mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gofalu am yr amgylchedd*
- *Deall bod gwarchodfa natur yn rhoi gwaith i rai pobl ac yn rhywle hardd i bobl eraill.*
- *Sylweddoli bod nifer o asiantaethau'n ceisio rheoli rhannau o Eryri.*
- *Dysgu am waith y Warden.*

| | |
|---|---|
| Gweithgaredd | Gallech chi gampio, beicio, cerdded ar draws yr Wyddfa a hefyd merlota. |
| Rhannau o Eryri a effeithir gan y weithgaredd | Mae'r mynyddoedd yn llawn sbwriel ac oherwydd y gweithgareddau, a gyda'r pobl yn dod yn eu ceir, mae'n na lawer o lygredd |
| Amser y Flwyddyn | Mae'r gweithgareddau yn mynd ymlaen trwy'r flwyddyn ond yn y Gaeaf, mae'n eitha beryglus! (Pam?) |
| Rhesymau am y weithgaredd | Y rheswm mae pobl yn dringo'r Wyddfa yw i gadw'n heini, i gael awyr iach ac i weld golygfeydd hardd. |
| Effaith ar bobl sy'n byw yn yr ardal | Mae'n effeithio ar y bobl sy'n byw yn yr ardal oherwydd y ceir i gyd ac y sŵn i gyd. Llygredd. |
| Effaith ar ymwelwyr eraill | Bydd ymwelwyr eraill heb paratoi am y tywydd. Byddan nhw heb gwisgo dillad digon twym a heb dod â digon o fwyd. |
| Effaith ar fywyd gwyllt | Mae pobl yn taflu sbwriel. Wedyn, mae'r anifeiliaid gwyllt yn bwyta'r sbwriel ac yn tagu. |
| Ymateb i'r weithgaredd ~ o blaid neu yn erbyn | Dydw i ddim ond o blaid am bobl yn gwneud y weithgareddau os maen nhw'n dangos parch i'r wlad. |
| Rheolaeth sydd ei angen | Mae angen biniau sbwriel a biniau am baw ci. Oes! |





## Ymchwilio | 'Byw mewn gwledydd eraill' India

Er mwyn ymchwilio i leoliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, astudiwyd India. Cynlluniodd yr athro i'r disgyblion ddod o hyd i wybodaeth am India mewn cyd-destun byd-eang cyn canolbwyntio ar ardaloedd Chembakolli a Bangalore.

Un o'r nodweddion allweddol yr ymchwiliwyd iddo fe oedd yr hinsawdd. Edrychodd y disgyblion ar ffigurau yr hinsawdd a graffiau ar gyfer India a'r DU er mwyn canfod cyffelybiaethau a gwahaniaethau. Roedd Megan yn gallu dehongli'r data ac ateb cwestiynau i ddisgrifio hinsawdd y ddau leoliad a'r gwahaniaethau rhwng y ddau yn gywir a gyda pheth manylder.

Fel rhan o'r ymchwiliad manwl i brif nodweddion Chembakolli, astudiodd y disgyblion fap i ddisgrifio taith ac i adnabod rhai cyffelybiaethau a gwahaniaethau gyda'r ardal leol. Yn yr enghraifft ar y chwith, mae Megan wedi gallu darllen y map yn gywir i nodi arweddion ac i ddisgrifio taith. Gallai hi wella ei hateb ymhellach trwy ddefnyddio iaith gyfeiriadol ar gyfer disgrifio'r daith, e.e. gogledd, dwyrain, de-orllewin.

Trwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau eilaidd ychwanegol, roedd Megan yn gallu adnabod a *dechrau esbonio nodweddion naturiol* a *dynol gwahanol gymdogaethau* (cymuned, ysgol, dillad, ysbytai) a *sut a pham y mae lleoedd yn wahanol* (nodweddion o Lefel 4).



Nôd – Cymharu a chyferbynnu Chembakolli a'r ardal leol.

Gwaelod-y-Garth

Chembakolli

Sut ydynt yn debyg?

- Mae'n oer rhwng Tachwedd a Mawrth.
- Mae'n nhw'n mynd i'r ysgol.
- Mae tai ganddyn nhw.
- Mae'r ddau yn bentref.

Sut ydynt yn wahanol?

| Gwaelod-y-Garth | | Chembakolli |
|---|---|---|
| Dydy cymuned Gwaelod ddim mor gryf. | Cymuned | Mae cymuned Chembakolli yn gryf a clos. |
| Mae ysgol yn y pentref | Ysgol | Mae'r ysgol yn y dref |
| Mae ein dillad ni yn lan a newydd | Dillad | Mae ei dillad yn frwnt a hen. |
| Mae'r ysbyty agosaf yn eithaf pell. | Ysbytai | Mae ysbyty agosaf yn y dref |

Da iawn ti am gymharu a chyferbynnu Gwaelod-y-Garth

**Crynodeb**

Mae proffil Megan yn dangos rhai nodweddion o Lefel 4 a Lefel 5, ond nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

Mae hi'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arweddion gwahanol leoliadau ac amgylcheddau. Mae ganddi hi synnwyr da o leoliad, ac mae hi'n gallu darllen a dehongli mapiau ac awyrluniau yn gywir, a defnyddio cyfeiriad, pellter a chyfesurynnau syml. Mae hi'n gallu cynrychioli hyn gyda pheth cywirdeb trwy linfap. Mae hi'n dechrau canfod sut mae lleoedd yn gydgysylltiedig.

Mae Megan yn dechrau esbonio arweddion naturiol a dynol nodweddiadol lleoedd a sut a pham mae lleoedd yn wahanol, e.e. yn y gwaith ar Chembakolli a'r ardal leol. Yn y gwaith ar ffermydd gwynt a pharciau cenedlaethol, mae hi'n nodi rhai o achosion a chanlyniadau newid ac mae hi'n *dangos peth dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd* (nodwedd o Lefel 4).

Yn ei gwaith ar Antarctica, mae hi'n *awgrymu cwestiynau perthnasol* (nodwedd o Lefel 4).

Mae hi hefyd yn mynegi ei sylwadau ei hun ac yn dechrau ystyried sylwadau a barn pobl eraill ar y mater, a thrwy ei holl waith, mae hi'n cyflwyno ei gwaith *gan ddefnyddio rhai termau daearyddol priodol* (nodwedd o Lefel 4).

Yn y rhan fwyaf o'r sgiliau, mae Megan yn gweithio ar Lefel 4. Fel y cam nesaf, mae angen i Megan gael cyfleoedd i arsylwi, casglu, mesur a chofnodi data perthnasol trwy gynnal ymchwiliad, e.e. wedi ei seilio ar waith maes, a dod i rai casgliadau. Mae angen iddi hi ddechrau dewis a defnyddio dulliau priodol o gyflwyno, a datblygu ei dealltwriaeth o batrymau daearyddol, ac egluro pam mae lleoedd yn wahanol a sut gallan nhw newid.

# Garmon

## Nodweddion o Lefelau 4 a 5


Mae Garmon yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Garmon nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Garmon ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Garmon yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

Cynlluniodd athrawes Garmon i'r dosbarth ganolbwyntio'n bennaf ar ddwy agwedd ar yr Ystod sy'n ofynnol gan y rhaglen astudio. Fel rhan o'r uned ar 'Fyw yng Nghymru', ymchwiliodd y dosbarth i ble mae pobl yn byw yng Nghymru gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys gwaith maes ym Mae Caerdydd. Roedd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i edrych ar sut a pham mae lleoedd ac amgylcheddau yn newid. Dewiswyd lleoliad cyferbyniol mewn gwlad yn Affrica er mwyn ymchwilio i fyw mewn gwledydd eraill. Roedd y rhaglen yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

### Ymchwilio | 'Byw yng Nghymru' Lle mae pobl yn byw: agwedd ar Gymru gyfan


Pam fod Pontyclun yma?

Edrychwch ar safle Pontyclun ar fap O.S.

- Edrychwch ar siâp y tirwedd/afon wrth ymyl.
- Edrychwch ar y cysylltiadau trafnidiaeth sy'n rhedeg trwy Pontyclun neu'n agos i Bontyclun.
- Edrychwch ar y pellter o Bontyclun i drefi eraill.
- Meddyliwch sut mae'r pethau hyn i gyd wedi effeithio ar y ffordd mae Pontyclun wedi datblygu. Gwnewch gynllun o Bontyclun yn y blwch isod. (Nodwch y pethau y soniwyd amdanynt uchod yn unig).

Defnyddiwch symbolau O.S. wrth ddangos rhai nodweddion.
**Allwedd symbolau:**

ffordd A | M4 | afon | tir uchel

Yn eich llyfrau, ceisiwch esbonio pam fod Pontyclun wedi datblygu lle mae e.

Cyn iddyn nhw edrych ar ble roedd pobl yn byw yng Nghymru, edrychodd y disgyblion ar yr ardal leol. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau cyn mynd ymlaen i gymhwyso'r rhain mewn cyd-destunau anghyfarwydd. Yn y dasg hon, roedd y canolbwynt ar ddatblygu sgiliau darllen map y disgyblion fel eu bod yn gallu dechrau canfod patrymau ffisegol a dynol, a sut maen nhw'n gysylltiedig. Roedd Garmon yn adnabod patrwm a llwyddodd i lunio'r prif nodweddion o ran tirwedd a'r cysylltiadau trafnidiaeth perthnasol i'r rhain yn gywir. Er mwyn atgyfnerthu ei ddealltwriaeth, mae angen iddo fe ystyried yn bellach sut mae aneddiadau lleol yn berthnasol i'r patrwm, a disgrifio ac esbonio'r patrwm a welwyd.

Ar ôl gweld beth roedd y disgyblion yn ei wybod neu’n meddwl eu bod yn ei wybod am Fae Caerdydd, a thrafod rhai cwestiynau ymholi, cychwynnodd yr athrawes yr ymchwiliad trwy ddarparu adnoddau amrywiol (rhai o’r ysgol yn ogystal ag adnoddau o’r we, megis www.multimap.com ar gyfer map ac awyrlun). Gan weithio mewn grwpiau bychan, archwiliodd y disgyblion y gwahanol adnoddau er mwyn casglu peth gwybodaeth gychwynnol. Pwyslais y gweithgaredd hwn oedd datblygu’r sgiliau ymchwilio a chasglu gwybodaeth berthnasol. Defnyddiodd Garmon yr adnoddau i gasglu peth gwybodaeth ddaearyddol berthnasol am yr ardal a nodi rhai o’r newidiadau a oedd wedi digwydd. Er bod lefel ei ddealltwriaeth braidd yn arwynebol ar yr adeg hon, mae, fodd bynnag, yn darparu sail i Garmon ddangos nodweddion o Lefel 5 yn ddiweddarach yn yr archwiliad.


**Sut le ydy** Bae Caerdydd?
Cewch ddewis o: yr awyrlun, y ffotograffau o nodweddion daearyddol, y llinfap, y ddalen wybodaeth a’r map AO graddfa 1:50,000.

| Adnoddau a ddefnyddiais | Nodiadau am yr hyn a ddysgais am Fae Caerdydd |
|---|---|
| ffotograff Or bae. | • Mae dociau yn y llun ar bwys y Môr. • Mâr llun yn edrych yn newydd • Tafarn yn hen ond maen dal yna • Park newydd sbon. |
| awyr lun or bae | • yn 1995 roedd mwd yn lle dwr on nawr mae dwr glan. • Maer Adeilad glanfa Cynulliad yn un or adeladau henaf yn y b • Mae tegniquest yn agos at y mor • Mae rhai or Cychod yn hen. |
| Map or Bae 2000 | • Adeladu'r dociau. • llawer o adeladau o gwnpas. • Mae harri ramsdens yn ar bwy y mor. • mwy o adeladau ar bwys y mor. |
| llun map | • Mae'r llun fap yn dweud ble mae'r hewl. • Mae'r llun fap yn dweud ble mae pethau. • Mae llawer o Adeladau • Mae nhw'n adeladu'r dociau |
| awyr lun | • Mae'r eglwys norwy are y bwys tube tiwb • Mae llawer o geir. • Mae'r mor yn lan. • Mae llawer o Siopiau. |

✓ Ardderchog. Rwyt ti wedi cynnig arsylwadau manwl yn y tabl yma. Dal ati!

Defnyddiwyd yr adnoddau a TGCh i ymchwilio ymhellach i rai o'r patrymau a'r newidiadau yn ardal Bae Caerdydd. Roedd Garmon yn gallu adnabod lleoliad adeiladau ar y map a'u cymharu ag awyrluniau hen a newydd a oedd wedi eu cyfunioni'n wahanol. Roedd e'n gallu adnabod a lleoli nodweddion yn gywir ac adnabod ardaloedd tai ar y lluniau. Roedd e'n gallu crynhoi sut mae swyddogaeth pobl yn gallu creu newidiadau i leoedd, a rhai canlyniadau newid ar bobl a'r amgylchedd.

## Astudio Awyrlun - 1




**1. Pryd ydych chi'n meddwl oedd y ffotograff wedi cymryd?**


**Ateb:** Mae'r ffotograff yn eithaf hen oherwydd mae'n wahanol i'r awyrlun modern ac mae llawer o waith adeiladu yn mynd ymlaen.: Rydw i'n meddwl efallai dyma oedd sut oedd Bae Caerdydd pan oes i fy ngeni sef tua 10 blynedd yn ol. Dydy'r Senedd ddim yna na siopau Mermaid Quay ac mae llawer o adeiladau yn Bae Caerdydd nawr sydd ddim yn y ffotograff yma.

**2. Beth yw Cyfeirnod Grid?:**

- Adeilad Pier Head: F3

**3. Defnydd tir. Defnyddiwch 'Auto Shapes', 'Basic Shapes' a 'Smiley Face' i ddangos y sgwariau grid lle mae'r tir yn cael eu denyddio ar gyfer tai**

## Astudio Awyrlun - 2




**1. Pryd oeddech chi'n meddwl oedd y ffotograff yma wedi cymryd?**
**Ateb:** Rydw i'n meddwl tua 4 blwyddyn nol.

**2. Pam ydych chi'n meddwl hyn?.**

**Ateb:** Mae'n llawn o tai ac adeiladau newydd fel gwesty Dewi Sant ond maen nhw'n dal i adeiladu Canolfan y Mileniwm a dydy'r Senedd ddim wedi adeiladu eto

**3. Yn yr awyrlun arall roedd craen yn adeiladu adeilad Pa adeilad oedd e a ble mae'r adeilad?**

**Ateb:** Roedd e'n gweithio ar adeiladu gwesty Dewi Sant yn sgwar 3011

**4. Yn yr awyrlun yma, beth yw cyfeirnod grid (6 ffigwr?:**

- **Adeilad Pier Head:** 341123
- **Yr Eglwys Norwyeg:** 342121

**5. Pa adeiladau ydych chi'n adnabod yn y llun?**

| Adeilad | Cyfeirnod Grid |
|---|---|
| Techniquest | 3112 |
| Stadiwm y Mileniwm | 3315 |
| Canolfan ymwelwyr | 3411 a 3511 |

# Bae Caerdydd yn y gorffennol a heddiw.

**Disgrifiwch lun Bae Caerdydd cyn i'r bared gael ei adeiladu yn y bocs isod.**


Roedd na lawer o brithell odan y dŵr, ac ar ôl i'r llanw fynd allan bydd adar yn dod a bwyta'r pryfed. Doedd y pobl lleol ddim yn hapus iawn am y peth yr oedden nhw yn gweld, felly adeiladon nhw y bared. Roedd na lawer o fwd o dan y dŵr, i wneud y dŵr yn y bae yn frwnt. Doedd na dim llawer o gaffes a bwytai o gwbl yna. Pan oedd y llanw allan roedd na cychod bach lliwgar i weld ar y mwd.

**Disgrifiwch lun Bae Caerdydd heddiw yn y bocs isod.**

Nawr mae'r lle llawer gwell, mae'r dŵr yn fwy glan, a mae'r bared yn cadw'r dŵr i mewn i'r Bae. Does na dim adar yn dod mwy, i fwyta'r pryfed. Rhoddodd yr adeiladwyr pibau o dan y dŵr i chwythi'r ocsegen i gadw pethau dal yn fyw. Mae na lawer o gaffes yna nawr a bwytai, oherwydd am y Bae prydferth, sy'n denu'r pobl at y Bae. Mae adeiladau fel technique a Canolfan y Milenium a llawer o fflatiau newydd yna nawr.

Yn dilyn y gwaith maes ym Mae Caerdydd, datblygodd y disgyblion eu dealltwriaeth o ddaearyddiaeth yr ardal trwy gynhyrchu mapiau i ddangos rhai o'r prif nodweddion. Cynhyrchodd Garmon gynrychioliad eithaf cywir o'r ardal gydag allwedd briodol ac *ymdeimlad o raddfa a chyfrannedd* (nodwedd o Lefel 5). Yna, cynhyrchodd fap gan ddefnyddio meddalwedd Astudiaethau Lleol (system GIS syml), a chysylltu gwybodaeth berthnasol â'r lleoliadau gan ddefnyddio'r rhaglen. Llwyddodd i gynhyrchu map cywir ac i leoli a chyflwyno gwybodaeth am leoedd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y gwaith maes a mynegi ei sylwadau a'i farn am ardaloedd yn ardal y Bae.



Roedd Garmon wedi crynhoi yr hyn roedd wedi ei ddysgu o'i ymchwiliad i Fae Caerdydd trwy ddefnyddio TGCh i ateb cwestiynau ac anodi llun. Yma, mae e'n gallu dangos yr hyn mae e'n ei wybod am yr ardal, disgrifio prif nodweddion yr ardal, y rhesymau pam mae'r lle fel hyn a sut a pham mae wedi newid. Mae'n sôn am y pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol rhwng y Bae a'r ardal leol, ac yn cynnig ei sylwadau a'i farn ei hun ynghylch yr ardal a sut gallai newid yn y dyfodol.

**Beth fyddwch yn gweld yn Bae Caerdydd?**
Yn Bae Caerdydd mae llawer o bwytai, siopau, swyddfeydd ac arddangosfeydd. Hefyd mae'r senedd yna lle mae cynulliad Cenedlaethol Cymru. Weithiau mae rasus cychod ac mae pobl yn mynd i weld nhw. Mae llawer o bethau fel 'food festivals a pethau i wneud. Mae llawer o eglwysi yna fel yr eglwys Norwyeg.

**Beth a Ble mae Bae Caerdydd?**
Mae Bae Caerdydd yn lle prysur lle mae pobl yn byw a gweithio ac mae llawer o dwristiaid yn mynd yna. Mae e yn prifddinas Cymru sef caerdydd ac mae e ar bwys moryd Hafren.

**Pam mae Bae Caerdydd fel hwn?**
Roedd Bae Caerdydd wedi newid o fod yn borthladd prysur i fod yn borthladd hen a ffatrioedd a dociau yn cau lawr. Nawr mae'n atyniad I dwristiaid.
Roedd y llywodraeth wedi penderfynu bod nhw ddim yn hoffi'r hen borthladd mwy mae nhw wedi newid e mewn i lle modern a deniadol i bobl sy'n byw yna ac i ymwelwyr.



Rydw i'n hoffi Bae Caerdydd am fod llawer o adloniant i blant yna. Dydw i ddim yn hoffi Bae Caerdydd achos mae e'n lle drud.

Rydw i'n hoffi Bae Caerdydd am fod llawer o bwytai neis yna. Dydw i ddim yn hoffi Bae Caerdydd achos mae e fel arfer yn rhy llawn.

**Beth all ddigwydd?**
Rydw i'n meddwl byddwn nhw'n ychwanegu mwy o bethau newydd bydd yn costio llawer o arian felly bydd rhaid iddyn nhw talu morgais am weddill eu bywyd.

## Ymchwilio | ‘Byw mewn gwledydd eraill’ Lesotho

Yn yr uned hon, ymchwiliodd y disgyblion i ba fath o brofiad ydy byw yn Lesotho yn Ne Affrica, gyda phwyslais arbennig ar Semonkong a sut roedd yn cymharu â’r ardal leol. Roedd yr uned yn amcanu at ddatblygu sgiliau archwilio mwy annibynnol a sgiliau meddwl y disgyblion. Fel cyflwyniad, defnyddiodd yr athrawes rai o’r adnoddau *Cyfnod Allweddol 2 – Deunydd Asesu Dewisol Daearyddiaeth* (ACCAC, 2002) i archwilio canfyddiad y disgyblion o leoliad Affricanaidd ac i ysgogi rhai cwestiynau ymholi. Roedd yr athrawes yn ceisio datblygu meddwl creadigol trwy ofyn i’r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth a’u sgiliau arsylwi i geisio rhagfynegi’r hyn sydd y tu hwnt i’r ffotograff. Gwnaeth Garmon lun yn dangos adeiladau ychwanegol, peth llystyfiant a syniad o’r tywydd. Roedd e’n gallu esbonio ei lun a rhoi rhai rhesymau dilys i gyfiawnhau ei lun pan ofynnwyd iddo fe.








Defnyddiodd y disgyblion CD-ROM a gwefannau, e.e. GCaD Cymru, i ymchwilio i wybodaeth am leoliad y wlad a’i phrif nodweddion ac i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Defnyddiodd y disgyblion ffrâm feddwl i gymharu a chyferbynnu Semonkong gydag ardal yng Nghymru. Nododd Garmon nifer o gyffelybiaethau a gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal o ran iechyd, addysg, trafnidiaeth, cyfoeth a gwaith. Nododd y gwahaniaethau a'r broblem fwyaf yn ei farn ef (iechyd–AIDS) o ran yr ardal gyferbyniol. Rhoddodd ei resymau pam ac awgrymodd rai datrysiadau posibl. Mae ei atebion yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth am rai o'r materion dan sylw a'r gallu i flaenoriaethu a rhesymu.



4

# Diagramau Meddwl

Diagram Meddwl: Cymharu a Chyferbynnu

## CYMHARU A CHYFERBYNNU

NANTGAREDIG | SEMONKONG

Pa mor debyg?

- Pentref bach yw Nantgaredig fel Semonkong
- Mae'r tai yn weddol wasgaredig yn y ddau le
- Amaethyddiaeth yn bwysig yn y ddau
- Mae ysgol a eglwys yn Nantgaredig a Semonkong
- Ardaloedd gwastad gyda bryniau o gwmpas.

Pa mor wahanol?

| Nantgaredig | O ran | Semonkong |
| --- | --- | --- |
| Mae trigolion Nantgaredig yn ennill cyflog safonol. | CYFLOG | Cyflog isel iawn sydd gan y bobl sy'n digon ffodus i gael gwaith o gwbl. |
| Mae heolydd da iawn yn ardal Nantgaredig | TRAFNIDIAETH | Heolydd pridd gwael sydd yn Semonkong. |
| Mae ysgol dda iawn yn Nantgaredig, a phob plentyn yn cael addysg am ddim nes 16oed | ADDYSG | Nid oes cyfle i bob plentyn fynd i'r ysgol. Mae rhai yn gorfod gweithio i helpu'r teulu. |
| Nid oes neb yn dlawd yn Nantgaredig. Mae cartrefi clyd gan bawb a digon o fwyd | TLODI | Llawer o dlodi yn Semonkong. Nifer fawr o bobl heb waith cyflogedig. |
| Nid oes problem AIDS yn Nantgaredig | AIDS | Mae hwn yn broblem enfawr sy'n effeithio pawb yn y wlad. |


Patrymau tebygrwydd a gwahaniaethau arwyddocaol

Y gwahaniaeth mwyaf amlwg yw'r broblem gyda IECHYD. Mae AIDS yn gadael plant amddifad ac yn effeithio ar safon byw pawb yn y wlad.

Casgliad neu ddehongliad

Rhaid cael mwy o ddoctoriaid, nyrsys, ysbytai a gwell meddyginiaeth i'r rhai sy'n H.I.V

Mae Garmon yn mynd ymlaen i ddatblygu'r ateb hwn trwy ffrâm feddwl arall ar gyfer datrys problem. Mae e'n gallu nodi ac esbonio ystod o faterion a dechrau gwneud penderfyniadau ynghylch datrysiadau synhwyrol a'u heffaith tebygol at y wlad, e.e. helpu Lesotho i helpu ei hun, gan *ddefnyddio geirfa ddaearyddol gywir* (nodwedd o Lefel 5), e.e. gwlad hunangynhaliol a'u heffaith tebygol ar y wlad.



**SGILIAU MEDDWL** DATRYS PROBLEMAU

Y TESTUN: Problemau Lesotho: tlodi, diweithdra, AIDS, Sychder, Plant amddifad.

**Atebion posib**

**Sut i ddatrys broblemau Lesotho ?**

Mae angen llawer o help ar y wlad o tu allan er mwyn ei galluogi i ddatrys y problemau dwys sydd yn y wlad heddiw. Ni all y wlad ddatrys y problemau heb help wrth wledydd cyfoethog y Gorllewin. Rhaid helpu Lesotho i helpu ei hun. Mae angen arbenigwyr i gynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim, i hyfforddi unigolion mewn sgiliau sylfaenol fel bo rhain wedyn yn medru hyfforddi eraill o drigolion y wlad.

**Rhai awgrymiadau**

- addysg gwell yng nglyn og AIDS
- hyfforddiant ar gyfer cychwyn busnesau bach lleol i roi gwaith
- Cefnogaeth ariannol wrth wledydd y Gorllewin dros gyfnod byr
- Sefydlu cartrefi i'r plant amddifad; hefyd ysgolion i'w dysgu
- hyfforddi fwy o nyrsys a doctoriaid er mwyn gwella iechyd y bobl
- codi ymwybyddiaeth y byd am y wlad fechan hon

| **Calyniadau:** Beth fydd yn digwydd ? | **Gwerth:** Pa mor bwysig mae'r canlyniadau? Pam ? |
|---|---|
| Os bydd yr awgrymiadau uchod cael eu gweithredu fydd safon byw yn y wlad yn gwella a bydd y trigolion yn medru cynnal eu hun a datblygu i fod yn wlad hunan gynhaliol yn y wir ystyr. | Y nôd yw hybu annibyniaeth ym mhob Gwlad yng Nghyfandir Affrica – felly mae'r canlyniadau yn bwysig iawn. |

**Penderfyniadau eraill:** Ydy rhain yn benderfyniadiau gwell ? Pam ?

- Sicrhau bod dŵr glân ar gael i bob cartref/pentref – hyd yn oed yn y pentrefi mwyaf anghysbell
- datblygu Colegau ar gyfer addysg uwch, lle mae'r addysg ar gael yn rhad ac am ddim i bob plentyn sydd â'r gallu angenrheidiol.

**Crynodeb**

Mae proffil Garmon yn dangos rhai nodweddion o Lefel 4 a Lefel 5 ond nodweddion Lefel 5 yn bennaf.

Yn y gwaith ar Fae Caerdydd ac ar Lesotho, mae Garmon yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o nodweddion gwahanol leoedd, amgylcheddau a materion. Mae e’n gallu defnyddio atlasau, mapiau ac awyrluniau i leoli lleoedd yn fanwl gywir ac mae e’n gallu *llunio mapiau gydag ymdeimlad o raddfa a chyfrannedd* (nodweddion o Lefel 5). Mae tystiolaeth ei fod e’n dechrau adnabod a disgrifio patrymau daearyddol.

Yn ei waith ar Fae Caerdydd, mae e’n dangos ei fod e’n gallu *disgrifio a chynnig esboniadau am nodweddion arferol naturiol a dynol* (nodwedd o Lefel 5) a rhai o achosion a chanlyniadau newid yn y Bae. Trwy gymharu lleoliadau, mae e’n gallu nodi rhesymau am wahaniaethau rhwng lleoedd.

Mae Garmon wedi defnyddio gwahanol adnoddau ar gyfer arsylwi, casglu data ac i fesur a chofnodi, ac mae tystiolaeth o ddefnyddio gwaith maes i gefnogi hyn. Mae e’n gallu cyrraedd casgliadau credadwy ar gyfer ei ymchwiliadau gan ddefnyddio tystiolaeth.

Mae e’n dangos ei fod e’n gallu mynegi sylwadau a gwneud penderfyniadau am faterion daearyddol yn dda iawn, e.e. mewn perthynas â Lesotho. Yn ei holl waith, mae e’n cyfathrebu ei ddealltwriaeth *gan ddefnyddio geirfa ddaearyddol gywir* (nodwedd o Lefel 5).

Er mwyn datblygu ei waith ymhellach, mae angen cyfleoedd ar Garmon i gasglu, cofnodi a chyflwyno gwybodaeth sydd wedi ei seilio ar ddata gwreiddiol (o’r gwaith maes), ac i ddatblygu ei gwestiynau a’i ddilyniant ymholi ei hun. Efallai y byddai mân newidiadau i’r fframiau meddwl wedi caniatáu iddo fe gael y cyfle i werthuso gwahanol farn ar sut i ddatrys rhai o brif broblemau’r wlad.

# Adran 4

## Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

# Ceri | Lefel 5

Mae Ceri yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Ceri nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Ceri ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Ceri o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn daearyddiaeth, er ei bod hi hefyd yn dangos nodweddion o Lefel 4 a Lefel 6.

Cynlluniodd athro Ceri i'r dosbarth ddatblygu eu sgiliau ymchwilio yn y dosbarth a thrwy waith maes trwy wahanol agweddau ar yr Ystod. Roedd y cynllun gwaith am y flwyddyn yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

## Ymchwilio | 'Amgylcheddau dan fygythiad' Beth ydy'r dyfodol ar gyfer y goedwig law?

Tra eu bod nhw'n astudio uned ar amgylcheddau dan fygythiad, gofynwyd i'r disgyblion ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth ar y goedwig law ac yna awgrymu rhai ffyrdd o ymdrin â'r broblem o ddatgoedwigo yng nghoedwig law Brasil. Cyflwynodd Ceri beth gwybodaeth sylfaenol ar leoliad, hinsawdd, llystyfiant, bywyd gwyllt a phobl y goedwig law ac ar y broblem o ddatgoedwigo ar ffurf poster. Yna ysgrifennodd hi am sut gall llywodraeth Brasil roi sylw i'r mater a'r ffordd maen nhw'n gwneud hynny. Rhoddodd hi ddisgrifiad sylfaenol iawn o batrwm daearyddol, a disgrifiodd ac esboniodd rai o arweddion naturiol a dynol nodweddiadol yr amgylchedd. Disgrifiodd hi hefyd *sut y bydd prosesau* (datgoedwigo) *a rôl pobl o ran rheoli eu hamgylchedd yn newid* y goedwig law (nodwedd o Lefel 5). Wrth drosglwyddo ei dealltwriaeth, dewisodd a defnyddiodd ystod briodol o ddulliau, gan gynnwys map a diagram, a defnyddiodd rywfaint o eirfa ddaearyddol gywir, e.e. hinsawdd, llystyfiant, canopi, cynhaliol.

**Beth sydd yn cael ei wneud gan y wlad i wella'r sefyllfa?**

Mae llawer o bobl yn gweithio'n galed i geisio cadw'r fforestydd glaw.

Mae pobl yma eisiau defnyddio'r tir yn iawn ar ôl torri'r coed. Mewn rhau ardaloedd lle ceir coedwigoedd glaw maen nhw wedi dechrau codi waliau ar y llethrau er mwyn atal y pridd rhag cael ei gario i ffwrdd. Heb y waliau neu'r terasau yma byddai'r glaw yn cario'r pridd i ffwrdd.

I gychwyn mae'r llywodraeth wedi sicrhau pryd bynnag y mae coeden yn cael ei thorri, rhaid blannu un arall o'r un math. Dylid torri coed yn ofalus a dim niweidio coed eraill.


Am bob goeden fahogoni mae nhw'n torri, mi fydd coeden arall yn cael ei blannu. Y mae'r llywodraeth hefyd yn brwydro i leihau nifer o gynlluniau mwyngloddwyr. Mae'r llywodraeth yn dechrau annog pysgota cynhaliol lle byddant yn rheoli nifer o bysgod sy'n cael ei dynnu o'r afonydd yn yr ardal Amasonia. Er mwyn ofalu am yr Indiaid brodorol y mae llywodraeth Brasil yn cynnig cymorth meddygol a cyfreithiol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin yn deg. Ymgais arall sydd gan y llywodraeth i sicrhau dyfodol y coedwigwyr yw'r gwarchodfeydd natur. Enghraifft yw "TCRZ" sef "Gwarchodfa Natur Tambopta Candama". Ystyr hwn yw fod y byd natur yn cael llonnydd yn gyffredinol. Y mae 91 o warchodfeydd natur yn bodoli yn Amasonia erbyn heddiw.

Felly mae'r llywodraeth yn trio ei gorau i wella'r sefyllfa ym mhob ffordd, ac er mwyn cael dyfodol llwyddiannus ar gyfer goedwig law yn Amasonia.

## Ymchwilio | ‘Pobl fel defnyddwyr’ Pam mae pobl yn defnyddio canolfan siopa alldrefol?

Cynhaliodd y disgyblion ymchwiliad gwaith maes i ganolfan siopa alldrefol. Datblygodd y disgyblion rai cwestiynau ymholi a cheisio eu hateb trwy ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans, mapiau Goad ac arolwg holiadurol.

Wrth gynnal ei hymchwiliad, gofynnodd Ceri rai cwestiynau perthnasol a datblygodd ddilyniant rhesymegol. Casglodd a chofnododd ddata o wahanol adnoddau (holiadur, mapiau) a defnyddiodd y dystiolaeth i ddod i gasgliadau credadwy ar fanteision ac anfanteision y ganolfan siopa. Cyflwynodd ei chanfyddiadau o’r gwaith maes trwy ddefnyddio graffiau a pheth geirfa ddaearyddol gywir (cyfleus, tagfeydd traffig) i gyfleu ei dealltwriaeth.







| | Beth yw eich prif reswm dros sipa yma? | |
|---|---|---|
| 1 | Hawdd ei gyrraedd | 2 |
| 2 | Digon o ddewis o siopau | 17 |
| 3 | Parcio hawdd a chyfleus | 3 |
| 4 | Gallu prynu popeth mewn un ymweliad | 23 |

| | Pa mor aml rydych chi'n ymweld a'r parc? | |
|---|---|---|
| 1 | Mwy na un waith yr wythnos | 7 |
| 2 | Unwaith yr wythnos | 17 |
| 3 | Unwaith y mis | 18 |
| 4 | Byth | 2 |

**Barn pobl am y ganolfan siopa:**

1. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn sipa yma unwaith y mis, mwy na thebyg mae pobl yn prynu popeth yn un ymweliad. Maen nhw'n gallu parcio'n agos a gallu llenwi'r car gyda nwyddau. Mae llawer hefyd yn siopa unwaith yr wythnos. Efallai bod y pobl yma yn byw yn agos ac felly mae'n haws iddynt cyrraedd.
2. Mae 38 allan o 45 yn hoffi siopa yma achos rydych chi'n gallu prynu popeth mewn un ymweliad, fel llyfrau, esgidiau, dillad a bwyd.
3. Y prif rheswm am siopa yma yw fod popeth yma a digon o ddewis o siopau a nwyddau a rydych chi'n gallu prynu popeth mewn un ymweliad.
4. Mae 22 mas o 45 person yn dweud bod e'n anodd i barcio yno rhai weithiau. Ac mae 13 person yn dweud bod llawer o dagfeydd traffig ar y ffyrdd ar bwys y parc. Dim ond un person dywedodd bod nhw ffili prynu popeth mae'n nhw eisiau.

| Y Manteision | Yr Anfanteision |
|---|---|
| 1. Digon o ddewis o siopau | 1. Mae'n anodd i barcio weithiau |
| 2. Gallu prynu popeth mewn un ymweliad | 2. Mae tagfeydd traffig ar y ffyrdd |
| 3. Hawdd i gyrraedd | 3. Rhaid cael car i gyrraedd |
| 4. Parcio hawdd ac yn gyfleus | 4. Mae'n achosi llygredd |
| 5. Mae pobl yn hoffi siopa yma | |

## Ymchwilio | ‘Y byd ffisegol’ Beth ydy prif nodweddion Bae Cricieth a sut y’u ffurfiwyd?


Yn dilyn uned o waith ar brosesau arfordirol, a gwaith y môr, gosodwyd y dasg o gyflwyno astudiaeth achos o Morfa Bychan/ Traeth Cricieth i’r disgyblion. Roedden nhw’n arsylwi ac yn casglu data a gwybodaeth berthnasol yn ystod taith gwaith maes cyn cyflwyno eu gwaith. Cynhwysir peth o gyflwyniad Ceri isod a thros y tudalennau a ganlyn.

Yn ei gwaith, mae Ceri wedi llunio map gyda chymorth pecyn TGCh ar gyfer lleoli’r prif nodweddion, ac mae hi wedi disgrifio ac esbonio patrwm daearyddol (pentiroedd a baeau). Mae hi wedi disgrifio a chynnig esboniadau am nodweddion naturiol yr amgylchedd a welwyd, a sut mae prosesau ffisegol yn newid yr amgylchedd. Mae Ceri yn gwneud defnydd da a chywir o ystod o derminoleg ddaearyddol ac yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys testun, diagramau, lluniau anodedig a map. Yn y diwedd, mae hi wedi dod i gasgliadau syml a chredadwy.


**Tirffurfiau**

Mae rhai o dirffurfiadau arfordirol yn ddiddorol iw gweld ar bentiroedd a dyma beth sy’n digwydd:

Mae’r broses yn cychwyn gyda’r mor yn ffeindio darn gwan yn y graig ac wedyn mae’n erydu (ymosod) arno tan mae’n ffurfio crac ac yna mae’r crac yn mynd yn fwy llydan ac yn gwneud ogof wedyn mae’r ogof ar ol amser yn erydu reit drwy’r pentir ac yn ffurfio bwa ac wedyn mae’r bwa yn treulio ac yn disgyn wrth adael stac yn sefyll yn y mor.



## Crac




Dyma lun crac sydd yn y pentir yng Nghricieth wedi cael ei ffurfio wrth i'r tonnau'r mor ffeindio darn gwan yn y graig ac ymosod arno

## Ogof




Dyma lun o Ogof Morfa Bychan ac mai wedi ei ffurfio gyda'r un broses yn digwydd ond mae'r crac yn mynd yn fwy llydan ac felly yn tyfu'n Ogof.

## Pentir




Dyma lun o bentir fe dynais i gyda fy nghamera ac fel rydych yn gweld mae'r graig yn galed ac yn sefyll allan i'r môr, (gair arall am hyn yw Craig Galed.) yn noeth ac yn graigiog gyda rhai darnau garw a rhai darnau llyfn wrth i'r mor erydu'n ara' bach gyda hic-y-don bach ar waelod y graig a chaiff ei ffurfio wrth i tonnau'r môr ei daro a tharo yn ddi-ddiwedd, dydd ar ôl dydd gyda egni'r tonnau a cherrig man ynddi ond mae'r graig yn dal i sefyll yno'n gry' fel ma'i wedi bod ers blynyddoedd ac fel y bydd hi am fwy o flynddoedd i ddod yn y dyfodol. Does dim llawer o blanhigion yn tyfu arno.

## Craig Galed




## Craig Feddal




## Llinfap a pentir a Bae Cricieth

Dyma linfap o bentir a bae Cricieth wedi ei labelu a wnes i ar Paint.



**Beth ddysgais ar y gwaith maes?**

Fe ddysgais fod yna lawer mwy i greigiau a baeau, ac sut mae holltau yn datblygu'n y diwedd i fod yn stwmp ar ôl amser. Ac fod o'n ddiddorol iawn dysgu am sut mae effaith egni tonnau'r môr yn gallu gwneud gymaint o niwed i 'r graig. Hefyd ddysgais fod yna ddwy fath o graigiau sef y ' Graig Galed' a'r 'Graig feddal ' ac mae'r ddau yn hollol wahanol,– mae'r graig feddal yn erydu yn gyflymach na'r Graig Galed.

## Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ei holl waith, mae Ceri yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol da am ystod o leoedd, amgylcheddau a materion ar wahanol raddfeydd (o Fae Cricieth i goedwig law Brasil). Mae tystiolaeth ei bod hi'n gallu *lleoli lleoedd yn fanwl gywir ac yn llunio mapiau gydag ymdeimlad o raddfa a chyfrannedd* (nodwedd o Lefel 5), er mai ychydig o gyfle a gafodd i ddatblygu ei sgiliau map. Mae hi'n gallu *disgrifio patrymau daearyddol amlwg* (nodwedd o Lefel 5), e.e. arfordirol, fforest law, dosbarthu.

Mae Ceri'n gallu *disgrifio ac yn cynnig esboniadau am nodweddion naturiol a dynol arferol gwahanol gymdogaethau* (nodwedd o Lefel 5). Yn ei gwaith ar Fae Cricieth a'r goedwig law, mae hi'n dangos ei bod hi'n gallu *disgrifio sut y bydd prosesau a rôl pobl o ran rheoli eu hamgylchedd yn newid lleoedd* (nodwedd o Lefel 5).

Trwy ddatblygu ei harolwg holiadurol a chynnal gwaith maes, mae hi'n dangos ei bod hi'n gallu *gofyn cwestiynau perthnasol ac yn casglu ac yn cofnodi data perthnasol* (nodwedd o Lefel 5). Gan ddefnyddio'r dystiolaeth, mae hi'n *tynnu casgliadau rhesymol o'i gwaith ymchwil* (nodwedd o Lefel 5).

Mae ei defnydd o eirfa ddaearyddol yn dda yn ei holl waith, ac mae hi'n dewis ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau yn ei gwaith.

Fel y cam nesaf, mae angen i Ceri werthfawrogi a gwerthuso sylwadau a barn sy'n gwrthdaro a dechrau gwneud penderfyniadau ynghylch materion daearyddol. Mae angen iddi hi hefyd ddadansoddi ei chanfyddiadau yn fwy manwl a dechrau adnabod tueddiadau a sut mae lleoedd a phatrymau yn cydgysylltu. Mae angen iddi hi ddangos dealltwriaeth o gynaliadwyedd a sut gellir rheoli newid yn gynaliadwy. Dylid darparu cyfleoedd iddi hi ddefnyddio a datblygu ei sgiliau map.

## Darius | Lefel 6

Mae Darius yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.


Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Darius nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Darius ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Darius o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn daearyddiaeth, er ei fod e hefyd yn dangos nodweddion o Lefel 5 a Lefel 7.

Cynlluniodd athro Darius bynciau a oedd yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar yr Ystod ar gyfer datblygu eu sgiliau ymchwilio yn yr ystafell ddosbarth a thrwy waith maes trwy wahanol agweddau ar yr Ystod. Roedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

### Ymchwilio | 'Tref a gwlad' Beth ydy'r nodweddion a'r problemau daearyddol yn ein hardal leol ni?

Fel rhan o uned sy'n canolbwyntio ar wlad a thref, gofynnodd i'r disgyblion gynhyrchu llinfap o'u hardal leol ar ffurf poster, sydd wedi ei anodi i ddangos dealltwriaeth am y cysyniadau daearyddol o leoliad, ffurf, a swyddogaeth. Roedd yr uned yn cynnwys ffocws ar ddatblygu sgiliau map ac roedd y dasg yn gofyn i'r disgyblion gymhwyso'r sgiliau hyn yng nghyd-destun yr ardal roedden nhw'n byw ynddi.




Lluniodd Darius fap cywir o'i ardal a defnyddiodd symbolau a graddfa. Ymchwiliodd e i'r ardal leol ac anododd ei fap gyda'i luniau ei hun. Roedd ei sylwebaeth ysgrifenedig yn dangos ei fod e'n deall y cysyniadau o leoliad, ffurf a swyddogaeth, a chymhwysodd hyn i esbonio nodweddion ei ardal leol ei hun. Roedd e'n gallu adnabod a disgrifio yn gywir batrwm daearyddol (pentref llinellol) a defnyddiodd derminoleg ddaearyddol dda (gwledig, ar wasgar ayb).

Yn dilyn eu tasgau unigol ar eu hardal eu hunain, cynhaliodd y disgyblion waith maes mewn pentref lleol er mwyn ymchwilio i ddefnydd tir, materion trafnidiaeth, patrymau siopa, llif cerddwyr a phatrymau gwaith. Casglwyd a chofnodwyd data mewn parau, ac yna roedden nhw'n cyflwyno eu canfyddiadau trwy gyflwyniad PowerPoint. Nod y dasg oedd datblygu sgiliau ymchwilio'r disgyblion mewn cyd-destun go iawn, ac roedd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau cyfathrebu, rhif a TGCh y disgyblion.

Roedd tasg ddilynol yn gofyn i'r disgyblion ddisgrifio sut bydden nhw'n mynd i'r afael â chasglu a chyflwyno data fel rhan o'r ymchwiliad gwaith maes ar y pentref. Darn o waith unigol a oedd yn cael ei gynnal dan amodau prawf oedd hwn, ac roedd yn galluogi'r athro i asesu gallu'r disgyblion i gynnal ymchwiliad yn annibynnol.

Yn ystod y gwaith maes, casglodd, mesurodd a chofnododd Darius ddata perthnasol a chyflwynodd yr wybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig gan ddewis a defnyddio ystod o dechnegau yn gywir, megis graffiau a mapiau. Roedd e'n gallu dadansoddi'r wybodaeth a chynnig esboniadau rhesymegol ar gyfer ei ganfyddiadau. Roedd e'n gallu dod i rai casgliadau ac esbonio rhai prosesau a hynny wedi ei seilio ar y dystiolaeth. Trwy'r ymchwiliad, roedd Darius yn gallu adnabod nifer o batrymau daearyddol (defnydd tir, siopa, llif trafnidiaeth a cherddwyr) a gwybod sut roedd patrymau yn cydgysylltu (llif trafnidiaeth a defnydd tir). Yn y cwestiwn arholiad, nododd rai cwestiynau daearyddol perthnasol i'w hymchwilio, ac roedd e'n gallu defnyddio dilyniant ymchwilio yn rhesymegol a dewis data perthnasol i'w gasglu.

6. Mae eich athro/awes Daearyddiaeth wedi gofyn ichi wneud astudiaeth o'ch pentref gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol :-

(a) defnydd tir
(b) problemau traffig
(c) patrymau siopa
(ch) llif cerddwyr
(d) patrymau gwaith

Gan ddewis unrhyw ddau o'r ucjod , dangoswch sut fyddech chi'n mynd ati i :-

(i) gasglu y data

Byddaf yn mynd ati i gasglu data o batrymau siopa a llif cerddwyr gan ymweld â'r pentref. I'r patrymau siopa byddaf yn gofyn i bobl ar y stryd pryd a ble byddant yn siopa, beth byddant yn prynu, faint sydd rhaid teithio ac pa fath o siopau byddant yn eisiau gweld yn ein pentref. Ar gyfer llif cerddwyr byddaf yn sefyll yn mannau gwahanol ac yn cyfri faint o gerddwyr sy'n dod heibio mewn bea chwarter awr. Byddaf yn sefyll ar gwahanol ffyrdd; rhai prysur a rhai tawel, rhai poblogaeth a rhai amhoblogaeth; rhai yn canol y pentref ac rhai ar y ffin. (5)

6

(ii) gyflwyno (present) eich data

Byddaf yn cyflwyno fy data gan dangos cyfres o graffiau yn dangos fy canlyniadau (e.e faint o bobl sy'n siopa yn Aberteifi yn cymharu i'r rhai sy'n siopa yn Hwlffordd). Gallaf defnyddio Microsoft Excel ar y cyfrifiadur i ddangos graffiau olwyn (pie chart) ac i brofi fy canlyniadau. Byddaf yn egluro pob graff yn fanwl ac yn ysgrifennu adroddiad llawn ar fy canlyniadau, fy barn ar y canlyniadau ac am y gorffennol a'r dyfodol. (5)


3

## Ymchwilio | 'Amgylcheddau dan fygythiad' Sut gallai cynhesu byd-eang effeithio ar y Maldives?

Ar ddiwedd uned oedd yn canolbwyntio ar amgylcheddau dan fygythiad, gofynwyd i'r disgyblion gymhwyso eu gwybodaeth trwy astudiaeth achos o'r Maldives. Roedd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i ymchwilio i rai o achosion a chanlyniadau cynhesu byd-eang, datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang o'r rhan 'Dinasyddion y dyfodol' o'r Ystod. Rhoddwyd canllaw a meini prawf ysgrifenedig manwl i'r disgyblion ar gyfer y dasg ymchwil hon a gofynnwyd iddyn nhw gyflwyno eu gwaith ar ffurf poster.



Wrth wneud y dasg hon, dechreuodd Darius gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer lle ac amgylchedd penodol. Roedd e'n gallu esbonio rhai prosesau a sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd, e.e. cynhesu byd-eang, a sut gallai'r broses effeithio ar y Maldives a'u newid. Awgrymodd hefyd sut gellid rheoli newid yn gynaliadwy, ac roedd e'n gallu mynegi a chyfiawnhau ei farn ei hun ar y mater. Yn yr ymchwiliad, roedd e wedi dewis a chasglu data perthnasol o ystod o ffynonellau, a chyflwynodd yr wybodaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau oedd yn cynnwys diagramau, graffiau a mapiau oedd yn gosod yr ymchwiliad mewn cyd-destun daearyddol cadarn.


Beth fydd effaith cynhesu bydol ar Ynysoedd y Maldives?
Ble mae Ynysoedd Y Maldives?
Mae Ynysoedd Y Maldives yn grwp o 1120 i 2000 yn cefnfor India, o dan India a Sri Lanka. Lledred y Maldives yw 6 gradd G a'u hydred yw 73 gradd Dn. Am eu fod yn agos at y cyhydedd, mae'n lle poeth a tryfanol.
Cefnfor India
Maldives
Male
100mil
100Km
Atoll
0° Cyhydedd
maldives
1000
1100
1200

**Beth gellir ei wneud i achub ynysoedd y Maldives?**

**Yn y tŷ**

- Diffodd goleuadau wrth adael ystafell
- Troi peiriannau digidol fel teledu, cyfrifiadur, peiriannau gemau bant a pheidio gadael nhw ar 'stand-by'.
- Gwylio llai o deledu a gwneud pethau fel darllen llyfr.
- Rhedeg tu allan yn yr awyr agored i gadw'n heini yn hytrach na defnyddio peiriannau rhedeg.
- Paid a gor-lenwi'r tegell.
- Rhoi fwy o haenau o ddilad i gadw'n gynnes yn hytrach nrhoi'r gwresogydd neu'r tan ymlaen.
- Golchillestri gyda llaw yn hytrach na mewn peiriant.
- Inswleiddio'r ty i gadw'r gwres i fewn.
- Sychu dillad ar y lein yn hytrach na mewn peiriant.
- Gadael i wallt sychu yn naturiol yn hyrach na defnyddio sychwr gwallt.
- Rhoi paneli solar ar y ty i gael egni.

Mae pob un o'r rhain yn gallu arbed egni a lleihau y dinistr yn ein byd i lefydd fel ynysoedd y Maldives. Felly bydd y perygl o gynhesu bydol yn lleihau.

**Y Llywodraeth**


- Yn gyntaf fe ddyle y llywodraeth cau lawr y rhan fwyaf o'r gorsafoedd pwer sydd yn defnyddio tanwyddau ffosil. Yn ei lle fe ddylen nhw datblygu dulliau pwer adnewyddol fel:
  - Haul
  - Gwynt
  - Tonnau
  - Dŵr
- Gall y llywodraeth annog cwmniau ceir i ddatblygu injans trydan yn lle rhai petrol.
- Gall y llywodraeth cosbi cwmniau bwrnt sy'n gor-lygru.
- Gall cynghorau lleol datblygu a chefnogi cynlluniau ailgylchu.
- Dyle'r llywodraeth annog trafnidiaeth cyhoeddus trwy gwella'r gwasanaeth tren a bws a chodi mwy o dreth ar ceir ac awyrennau.
- Dyle mwy o wledydd ymuno a'r Kyoto protocol a dyle'r UN cael mwy o pwer i wneud e'n rhwymedig fod eu aelodau yn ymuno.
- Dyle gwledydd cosbi gwledydd sydd ddim yn ymuno fel yr Unol Daleithiau trwy codi trethi ar fwenforion o'r gwledydd.


Yn fy marn i mae rhaid i bob gwlad dechrau gwneud rhywbeth nawr os ydyn ni an trio stopio cynhesu bydol. Rydw i'n meddwl y peth mwyaf pwysig yw newid i egni adnewyddol ac i cael llai o geir yn y byd.

## Ymchwilio | 'Pobl fel defnyddwyr'
## Ydy twristiaeth yn dda neu'n ddrwg i ynys Mallorca?


Roedd y dasg hon yn dilyn uned o waith oedd yn canolbwyntio ar dwristiaeth mewn cyd-destun Ewropeaidd. Ar ôl ymchwilio i dwristiaeth mewn tref hanesyddol mewn cyrchfan dwristiaeth yn yr Alpau, gofynwyd i'r disgyblion ymchwilio a dylunio pamffled ar Mallorca. Roedd y pwyslais ar yr atyniadau daearyddol (achosion) ac ar fanteision ac anfanteision (effeithiau) twristiaeth ar gyfer datblygu'r ynys yn gynaliadwy. Darparodd yr athro ganllawiau a meini prawf manwl. Roedd sgiliau meddwl yn cael eu datblygu trwy weithgaredd 'graff byw'.

Yn ei waith, cymhwysodd Darius ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar gyfer adnabod a disgrifio patrwm daearyddol (yr hinsawdd). Disgrifiodd e sut mae lleoedd a phatrymau yn gysylltiedig wrth nodi'r berthynas rhwng lleoliad Mallorca, patrwm yr hinsawdd a gweithgaredd dynol. Disgrifiodd e sut y gall pobl a phrosesau (twristiaeth) effeithio ar yr amgylchedd a'r economi a nododd y gall y rhain fod yn gadarnhaol ac yn negyddol a gellir eu rheoli'n gynaliadwy. Mae e wedi dechrau gwerthuso sylwadau a barn gwahanol ynglŷn â lles twristiaeth, ac wedi gwneud ei benderfyniadau ei hun ar y ffordd orau ymlaen gan gynnig rhai rhesymau am ei sylwadau. Defnyddiodd e rywfaint o derminoleg ddaearyddol berthnasol ac ystod o dechnegau, gan gynnwys graff a map.





Graff Hinsawdd Mallorca?
Hinsawdd Mallorca
Dyodiad (mm)
Tymheredd (°C)
50
40
30
20
10
0
I Ch M E M M G A M H T R


I Ch M E M M G A M H T Rh
Anodau i'r graff
Mae Maria Sanchez yn Symud o gefn Gwlad Sbaen i fyw yn Mallorca.
Mae Pedro Gomez yn gorfod chwilio am waith arall gan fod y bar mae'n gweithio ynddo fel gweinydd yn cau lawr am y gaeaf
Llawer o bartion felly'r tywod yn casglu mewn bagiau'r bobl.
Mae'r ysbytai yn brysur iawn gyda llawer o bobl yn mynd yn sal yn y tymheredd uchel.
Prinder o Seddi yn y tai bwyta gan eu bod mor brysur.
Llawer o dagfeydd trafnidiaeth gan fod llawer o bobl ar eu gwyliau yn yr ardal.
Pobl yn casglu Sbwriel yn brysur iawn yn ceisio Cadw'r traeth yn lan.
Gan fod hi mor boeth llawer o ddiodydd yn cael eu prynu a llawer o arian yn cael ei gwneud.


## Ymchwilio | 'Y byd peryglus'
## 'Y byd cyfoethog a'r byd tlawd'
## Pa ffactorau sy'n esbonio lefel y dinistr a achosir gan ddaeargryn neu losgfynydd?

Yn ystod Blwyddyn 9, dilynodd dosbarth Darius uned ar beryglon naturiol. Yn yr uned, ymchwiliodd y disgyblion i ddosbarthiad byd-eang, achosion ac effeithiau daeargrynfeydd a llosgfynyddoedd, gan astudio rhai digwyddiadau folcanig penodol.

Aeth y disgyblion ymlaen i ymchwilio i'r berthynas rhwng datblygiad economaidd ac effeithiau peryglon trwy gymharu echdoriadau folcanig Mt. St. Helens a Nevado del Ruiz. Cyn dechrau'r dasg, ysgogodd yr athro y disgyblion a'u paratoi trwy ddefnyddio rhai tasgau sgiliau meddwl a oedd wedi eu datblygu'n arbennig, e.e. trwy feddwl am 'Pwy?', 'Pam?', 'Ble?', 'Beth?', 'Pryd?' Yna, gofynnodd i'r disgyblion gyflwyno cymhariaeth o'r ddau ddigwyddiad ar ffurf pamffled. Nod y dasg oedd asesu dealltwriaeth y disgyblion o brosesau tectonig, yr hyn mae datblygiad yn ei olygu, a'r berthynas rhwng achos ac effaith. Roedd y canllawiau a meini prawf yr asesiad yn adlewyrchu hyn.

Yn ei gyflwyniad, cymhwysodd Darius ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o brosesau tectonig i'r digwyddiadau penodol hyn ac esboniodd e'r prosesau hyn gyda chymorth technegau priodol. Cymharodd a chyferbynnodd e'r ddau le a'r ddau ddigwyddiad i esbonio sut roedd y ddau le wedi newid. Dadansoddodd a dehonglodd ddata ar ddatblygiad a defnyddiodd y dystiolaeth i lunio a chyfiawnhau esboniadau. Ceisiodd Darius hefyd gysylltu achos ac effaith, adnabod patrymau daearyddol ac esbonio sut roedd platiau tectonig a phatrymau datblygiad yn gysylltiedig.


Beth yw'r gwahaniaeth rhwng effeithiau llosgfynydd mewn GMEDd a GLIEDd?
Beth yw Nodweddion Gwledydd Mwy Economaidd Ddatblygedig?
Cyfradd geni = Isel
Cyfradd Marw = Isel
Disgwyliad oes = Hirach
Cymeriant bwyd = Mwy
Beth yw Nodweddion Gwledydd Llai Economiadd Ddatblygedig?
Cyfradd geni - uchel
Cyfradd Marw - uchel
Disgwyliad oes - byrach
Cymeriant bwyd = llai
Tystiolaeth mai Gwlad Mwy Economaidd yn Ddatblygedig yw'r UDA
Disgwyliad oes yw 76 oed.
Cymeriant bwyd = 3732 = galoriau
Tystiolaeth mai Gwlad Llai Economaidd yn Ddatblygedig yw Colombia
Disgwyliad oes yw 71 oed.
Llythrennedd oedolion 99.3%
Cymeriant bwyd = 2677 o galoriau
Ble mae llosgfynydd M. St Helens?
(Lluniwch ddiagram anodedig sy'n esbonio beth sy'n digwydd ar ymyl y platiau—ymyl dinistriol?
Ble mae llosgfynydd Nevado del Ruiz?
(Lluniwch ddiagram anodedig sy'n esbonio beth sy'n digwydd ar ymyl y platiau—ymyl dinistriol?


Cefndir Echdoriad M. St Helens (pryd, cryfder ...)
Cefndir yr Echdoriad yn Nevado del Ruiz (pryd, cryfder ...)
Effeithiau Echdoriad M. St Helens (y dinistr a'r difrod)
Effeithiau'r Echdoriad yn Nevado del Ruiz (y dinistr a'r difrod)
Pam fod llai o bobl wedi cael eu lladd gan echdoriad M. St Helens na gan echdoriad Nevado del Ruiz?

## Crynodeb a barn gyffredinol

Barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ei ymchwiliad i'r Maldives, Mallorca a'r ddau ddigwyddiad tectonig gwahanol, mae Darius *yn dechrau cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau a materion ar wahanol raddfeydd* (nodwedd o Lefel 6). Mae e'n gallu *llunio ac yn defnyddio mapiau* ac *yn adnabod ac yn disgrifio patrymau daearyddol* (nodweddion o Lefel 6), e.e. defnyddio tir, llif trafnidiaeth. Mae e'n dangos ei fod e'n *cydnabod sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu* (nodwedd o Lefel 6).

Mae e'n *esbonio nodweddion ffisegol a rhai prosesau* (nodwedd o Lefel 6), megis yn ei waith ar losgfynyddoedd a'u hachosion. Mae ei waith ar Mt. St. Helens a Nevado del Ruiz yn dangos ei fod yn gallu *cymharu ac yn cyferbynnu lleoedd* ac *yn esbonio sut y bydd lleoedd yn newid* (nodweddion o Lefel 6). Yn ei waith ar y Maldives a Mallorca, mae e'n gallu *disgrifio sut y mae pobl yn cael effaith ar yr amgylchedd* (nodwedd o Lefel 6) ac yn dangos ei fod e'n deall y gall newid fod yn llesol ac yn niweidiol a gellir ei reoli'n gynaliadwy.

Yn ei waith maes yn yr ardal leol, mae e'n dangos ei fod e'n gallu, yn annibynnol*, adnabod cwestiynau daearyddol perthnasol, yn sefydlu trefn ar gyfer ei waith ymchwil, yn dewis, yn casglu, yn mesur ac yn cofnodi data perthnasol* (nodwedd o Lefel 6). Mae e'n *dadansoddi gwybodaeth er mwyn darparu esboniadau rhesymegol ac yn cyflwyno casgliadau sy'n gyson â'r dystiolaeth* (nodwedd o Lefel 6). Mae'r gallu i sefydlu dilyniant ar gyfer ymchwiliad hefyd yn nodwedd o Lefel 6.

Wrth ystyried manteision ac anfanteision twristiaeth yn Mallorca, mae e'n dangos peth gallu i *werthfawrogi barn a safbwyntiau sy'n gwrthdaro* er mwyn ffurfio ei farn ei hun *ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus* (nodwedd o Lefel 6) gyda pheth cyfiawnhad. Trwy ei holl waith, mae e'n defnyddio ystod o *dermau a thechnegau daearyddol yn gywir i gyflwyno gwybodaeth* (nodwedd o Lefel 6).

O asesu ei waith, roedd ei athro o'r farn fod rhai o'r elfennau disgrifiadol mewn rhai tasgau, e.e. yn yr ymchwiliad i'r Maldives, yn dangos nodweddion o Lefel 5, ond yn bwysig, dangosodd Darius ei fod e'n gallu *adnabod cwestiynau* a *sefydlu trefn ar gyfer ei waith ymchwil* (nodwedd o Lefel 6).

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i Darius ddechrau esbonio patrymau a thueddiadau ac esbonio ei resymu a'i atebion yn fanylach ac yn fwy cywir. Mae e angen yr her o ddefnyddio data mwy cymhleth yn ei ymchwiliadau. Dylid darparu mwy o gyfleoedd iddo fe ddefnyddio a chymhwyso ei sgiliau map ac i werthuso ffaith a barn, a chanfod tuedd.

# Carys | Lefel 7


Mae Carys yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Carys nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Carys ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Carys o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn daearyddiaeth, er ei bod hi hefyd yn dangos nodweddion o Lefel 6 a Lefel 8.

Cynlluniodd ei hathrawes i'r dosbarth ddatblygu eu sgiliau ymchwilio yn yr ystafell ddosbarth a thrwy waith maes, tra eu bod yn astudio gwahanol agweddau ar yr Ystod yn Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3. Roedd y gweithgareddau wedi eu cynllunio i ymestyn y disgyblion mwy galluog ac i herio'r ystod gallu lawn. Roedd y disgyblion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac i werthuso canlyniadau eu gwaith. Roedd y rhaglen waith yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ar draws pob un o'r pedwar sgìl yn y rhaglen astudio.

## Ymchwilio | 'Amgylcheddau dan fygythiad' Pam mae fforest law yr Amason mewn perygl?


(a) Enwch ardal yr ydych chi wedi astudio lle mae datgoedwigo wedi digwydd.

Enw'r ardal (1)

(b) Eglurwch y problemau sydd wedi'u achosi gan ddatgoedwigo.

(c) Disgrifiwch beth sy'n cael ei wneud i ddatrys y problemau hyn.

Problemau a achoswyd.


(4)


Beth ydy'r atebion ?

(4)

Wrth astudio amgylcheddau dan fygythiad, ymchwiliodd Carys i rai o achosion ac effeithiau datgoedwigo gan ystyried rhai atebion posibl. Ysgrifennodd hi'r darnau ar y tudalennau hyn dan amodau arholiad. Gosodwyd y cwestiynau i brofi'n benodol y sgiliau daearyddol o ddeall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau a chyfleu sylwadau a barn ar fater daearyddol gan gyfeirio at astudiaeth achos benodol.

Yn ei hatebion, nododd ac esboniodd Carys rai o'r problemau a achosir gan ddatgoedwigo, a rhoddodd esboniad manwl gyda diagram anodedig o'r cysylltiad rhwng datgoedwigo a chynhesu byd-eang ('… oherwydd bod coed yn cael eu llosgi mae … gormod o garbon deuocsid …'). Ategodd ei hesboniadau gyda ffigurau ('un rhywogaeth yn marw allan bob dydd', '30% o belydrau'r haul yn dianc i'r gofod'). Dewisodd a defnyddiodd ystod o derminoleg ddaearyddol yn gywir. Trwy fynegi a chyfiawnhau barn ynglŷn â'r mater, mae hi wedi cydnabod barn sy'n groes (anghenion masnachol y llywodraeth ar gyfer datblygu ac ad-dalu dyledion). Fodd bynnag, gellid bod wedi datblygu hyn ymhellach i ddangos dealltwriaeth lawnach o'r mater hwn. Byddai cyfeirio at y cysyniad o ddatblygiad cynaliadwy yn atgyfnerthu ei dadl.





Boneddigion a boneddigesau,


Rwyf wedi dod yma heddiw i siarad am y newidiadau yng nghoedwig law Amasonia. Yn fy marn i

## Ymchwilio | 'Y byd peryglus'


### Beth ydy achosion ac effeithiau digwyddiad tectonig?

Ar ôl astudio uned ar beryglon tectonig, gofynwyd i ddisgyblion Blwyddyn 9 ymchwilio'n annibynnol i ddigwyddiad tectonig a chyflwyno gwybodaeth amdano. Y disgybl oedd yn gyfrifol am ddewis astudiaeth achos, adnabod y cwestiynau daearyddol allweddol, ac ymchwilio, casglu a chyflwyno'r dystiolaeth.

Cynhyrchodd Carys astudiaeth achos ar ffurf poster ar echdoriad Mt. St. Helens. Rhannodd ei chyflwyniad yn lleoliad, achosion, effeithiau a strategaethau ar gyfer rheoli'r perygl. Defnyddiodd hi ystod o dechnegau, mapiau, diagramau, lluniau a gwybodaeth gymhleth i gefnogi ei gwaith. Mae'r ysgrifennu a chynllun y gwaith yn amlwg yn perthyn iddi hi.





Darn allan o waith 'St. Helens' uchod



# Lleoliad

Mewn canol cwsg yn America mae Mynydd St. Helens yn sefyll. Ers chwech mynydd ar hugain mae'r mynydd wedi bod yn eithaf tawel, ond mae'n siwr bod yna rhagor o fywyd yn llosgfynydd enwog yma. Mae Mynydd St. Helens yn stratovolcano bywiog yn Sir Skamania, Washington, yn ardal Gogledd-dwyrain yn Gogledd America. Wedi lleoli 96 milltir (154 kilomedr) i'r de o Seattle a 53 milltir (85 kilomedr) o Portland, Oregon. Mae'r mynydd yn rhan o Cascade range sydd yn cael ei gwybod fel Louwala- clough sef "ysmygu neu mynydd tan" brodorol Americanaidd lleol, y Klickitats. Mae'r talaith y Washington rhwng y Mor Tawel i'r Dwyrain, Oregon i'r De (yr afon Columbia sydd yn dilyn rhan fwyaf o ffin), Idaho i'r Gorllewin a Canada i'r Gogledd. Mae yr ardal yn enwog am eu golygfeydd prydferth ac yr wahaniaethau mewn ei tirwedd. Mynydd uchel yn y cefndir a fforestydd bytholwyrdd a afonydd wyrdd-las. Mae ei lleoliad ar yr arfordir ac ei Porthladdau Puget sound yn arwain y marchnata gyda Canada ag Alaska. Mae ynysoedd Puget sound yn cael llynges fferi mwyaf yn yr Unol Daleithau. O safbwynt Daeareg mae mynydd St. Helens yn ifanc gan cymharu gyda'r gweddill yr holl llosgfynyddoedd cascade arall. Roedd e wedi cael eu greu mewn y 40,000 mlynedd dwethaf. Maent yn adnabod y llosgfynydd am ei bod yr un mwyaf bywiog tyfewn i'r 10,000 mlynedd dwethaf. Hyd yn oed cyn i'r mynydd colli tipyn o'i uchder roedd ei copa dim ond y pumed uchaf yn Washington. Mae e'n sefyll allan achos ei siap cywir ac y claddiad o yr copa cyn 1980, yn ennill y ffug enw "Fujiyama o America" Roedd y copa yn sefyll 5,000 troedfedd (1500 medr) uchben eu gwaelod. Mae'r mynydd yn tua 6 milltir ar draws (9.5 kilomedr) sydd a uchder o 4,400 troedfedd (1,340 medr) ar yr ochr Gogledd-Gorllewin a tua 4,000 troedfedd (1,320 medr) mewn llefydd arall.

Darn allan o waith 'St. Helens' ar y dudalen gyferbyn



# Achosion

Roedd siamber o fagma wedi cyrraedd cramen y ddaear a daeth or mantell. Hwnnw oedd wedi echdori yn y mantell uchaf. Roedd yr echdoriad yn cael cysylltiad gyda'r plat tectoneg Juan de fuca sydd yn cyrraedd yn agos i'r plat Gogledd America. Bydd y fagma yn gorwedd yn y mantell am flynyddoedd ac yn y diwedd bydd y magma yn dod allan gan fod y dwy plat ar ei ben yn creu straen, y symudiad oedd ffin dinistriol. Pan mae'r fagma yn y mantell mae peiriannau seisomedr ddim yn gallu gweld bod en mynd i ffrwydro allan yn creu llosgfynydd. Mae y nwyon yn y fagma sydd yn gwneud yr echdoriad yn yn ffrwydrol. Mewn dyfnder y mantell mae moliewls nwy (yn bennaf H2O, S02 a C02) yn cael ei gadw mewn solution yn lle mewn nwyau pur. Mae y ffordd hawsach i meddwl am dan y sefyllfa yw fel botel pop os nad yw y photel ar hagor dydych chi ddim yn gallu gweld ddim byd. Wrth i'r magma symud lan y mantell i'r cramen mae y gwasgedd yn disgyn achos mae yna llai o mantell uwchben sydd yn creu llai o straen a phwysau. Wedyn bydd y nwy yn dechrau dod allan o'r solution ac yn creu swigod (fel pan ydach yn agor botel o phop). Bydd y swigod eisiau tyfu, ac mae hwn yn gwneud y wasgedd tyfewn i'r magma i chodi. Wrth i'r magma codi mwy, fydd yna llawer o swigod aral sydd eisiau tyfu sydd yn codi y gwasgedd a pwysedd ar y fynydd. Oherwydd y fath o magma a death allan yn 1980, oedd en fath beryglus or enw 'dacite' nid oedd y swigod yn gallu nofio i dianc, ac achos hynny cododd y gwasgedd. Mewn llawer o amser death y gwasgedd yn gryfach nag pwysau y mynydd ac yna fe frwydrodd y mynydd.

Am 8:32 ar bore dydd sul frwydrodd llosgfynydd St. Helens. Cafodd y llosgfynydd ei symud gan echdoriad yn mesur 5.1 a'r y raddfa richter. Roedd wynch gogledd, samedrig y llosgfynydd yn craig ac gan fod pwer y daeargryn mor gryf roedd yr ochor gogledd wedi cwympo yn adael afalâns o cerrig a dinistriwyd bron a fod 230 milltir sgwar or tir coedwig. Am yr un amser roedd cwmwl siâp madarch o lludw yn dod allan or llosgfynydd ac yn cael eu symud miloedd o troedfedd yn uwch i'r awyr ac yn symud gyda'r gwynt yn adael awyr ddu yn symud dross tad Washington yn trwy'r dydd i nos. Roedd yr echdoriad wedi para am naw awr, ond roedd llosgfynydd St. Helens a'i tirwedd o amgylch wedi newid mewn funudau. Daeth y lluthriad lawr y mynydd at tua 110 i 150 milltir yr awr dros Spirit lake. Arol i'r pwysedd mynd i lawr roedd y gwasgedd wedi cwympo oedd yn adael siawns i'r swigod mynd. Gadawodd y lluthriad gwasgedd o magma i rhuddhau. Gan bod craig toddedig wedi ei creu a stem o wasgedd anaferol i echdori rhyw pump eiliad arol i'r wasgedd dechrau. Gyda chyflymder o 220-670mph rhythrodd y Pyroclastic flow lawr y llosgfynydd.


Yn y blwyddyn 1982, roedd y llywodraeth wedi creu 110,000 acre o parc cenedlaethol i ymchwilio. Ty fewn i'r parc mae y amgylchedd wedi ei adael i gwenud gwahaniaeth yn naturiol.


## Ymchwilio | 'Y byd ffisegol'
### Sut a pham mae nodweddion afon yn newid ar hyd ei chwrs?

Er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o batrymau a phrosesau ffisegol, trefnodd yr athrawes i'r dosbarth ymchwilio i un afon trwy gynnal gwaith maes. Gwnaeth peth gwaith cyflwyniadol ar fasnau afonydd, a nodweddion a phrosesau afonydd. Fodd bynnag, gosodwyd y rhan fwyaf o'r gwaith fel ymchwiliad annibynnol oedd wedi ei seilio ar arsylwadau gwaith maes gwreiddiol a data ac adnoddau eilaidd a ddewiswyd. Darparwyd canllawiau a meini prawf asesu manwl a pheth arweiniad ar strwythur er mwyn annog datblygu'r sgiliau ymchwilio uwch, mwy heriol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion mwyaf galluog yn gallu dangos mwy o annibyniaeth yn eu dewis o gwestiynau ymchwilio, y strwythuro o'u hymholiad ac yn y dadansoddiad, y casgliadau a'r gwerthusiad. Dangosir rhai tudalennau enghreifftiol o waith Carys ar y tudalennau a ganlyn.

Yn ei hymchwiliad, roedd Carys wedi arsylwi, casglu, cofnodi a chyflwyno data oedd wedi ei seilio ar ei gwaith maes ac ar ffynonellau eilaidd. Wrth gyflwyno ei chanfyddiadau, roedd hi'n cymhwyso ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o brosesau ffisegol a dynol i esbonio'r nodweddion daearyddol. Mae hi wedi atgyfnerthu ei gwaith gydag ystod o dechnegau perthnasol, megis lluniau a diagramau anodedig sydd wedi eu lleoli'n ddaearyddol, a thrwy ddefnyddio terminoleg (ystum, erydiad, dyddodi, clogwyn afon). Defnyddiodd ei harsylwadau a'r data o'r gwaith maes i nodi ac esbonio sut mae nodweddion lleoedd ac afonydd yn rhan o batrwm daearyddol ehangach, a dangosodd hyn trwy dechnegau graffigol amrywiol, gan gynnwys trawstoriadau.

Dadansoddodd hi'r dystiolaeth er mwyn cyrraedd a chyfiawnhau rhai canlyniadau dilys, ac mae hi hefyd wedi gwerthuso ei methodoleg ac awgrymu mwy o gwestiynau ymholi.








**Disgrifiad**

Y lleoliad trydydd oedd Melin ifan ddu.Yn y safle hwn mae'r llif yr afon yn gyflymach ar yr ochr chwith ac yn arafach ar yr ochr dde.Hefyd gallwn weld yn y safle hwn fod yr gwely yn fwy raddol ar un ochr ac yn fwy serth ar yr ochr arall sef y dde.O dan y coed sylweddolais fod yr afon wedi tandorri ar hyd y blynyddoedd,Mae hyn wedi cael ei achosi gan y llif cyflym sydd wedi creu erydiadau o dan y glan sef clogwyn afon,oherwydd hyn mae'n edrych fel bod wreiddiau'r coed wedi cael ei effeithio.Mae yna erydiad wedi digwydd y fam yma sydd wedi crau ystum. Ar ochr dde yr ystum mae yna draeth afon ble mae cerrig amrywiol wedi'I dyddodi.Gelwir hwn hefyd yn lletht slip.

<u>Ydy'r afon yn newid or tarddle ir aber tybed?</u> Wel, wrth gwrs mae'r afon yn newid or tarddle ir aber. Mae wahanol brosesau yn digwydd er mwyn newid yr Afon or rhwng y tarddle ar aber. Er engraifft, erydiad , dyddodiad , cludiant ac ati. Mae natur yn rheoli y rhain ond mae y nhw sy'n newid yr afon rhanfwyaf or amser. Drychwch ar erydiad fel esiampl mae'r broses yma yn newid y dwfnder eu lled ac eu siâp , sy'n newid mawr ir afon.
Mae yna newidiad wrth ir Afonydd/nentydd eraill ymuno gydar brif afon sef Afon Ogwr. Mae'r afonydd/nentydd yn rhoi mwy o pwer egni a chyflymder ir afon er mwyn eu newid. Mae y nhw yn helpu at cyflawni'r brosesau uchod.





**Graff i dangos graddiant**

Wrth deithio or Tarddle i'r Aber yr Afon Ogwr mae'r graddiant yn mynd o serth i bron yn wastad oherwydd mae'r Afon yn dechrau lan yn y mynyddoedd ac yn gorffen ar bwys y mor sydd yn meddwl mae bron yn gwastad.

**Graff i dangos cyflymder**

Mae'r Afon Ogwr yn newid cyflymder wrth i ni teithio o'r Tarddle i'r Aber oherwydd ar dechrau ein taith roedd e'n serth sydd yn meddwl mae'r dwr yn llifo'n cyflym ond wrth i ni teithio lawr yr Afon mae'n mynd yn fwy wastad sydd yn arafu y cyflymder i lawr.

**Graff dyfnder yr Afon Ogwr**

Wrth dethio o'r Tarddle i'r Aber yr Afon Ogwr mae'r afon yn mynd yn fwy dwfn y rheswm am hyn yw fod mwy o ddwr sydd yn wneud i'r afon mynd yn dyfnach oherwydd pwer y dwr angen mwy o le.

**Graff i dangos lled y dyffryn**

Wrth deithio o'r Tarddle i'r Aber yr Afon Ogwr mae'r lled y dyffryn yn newid o fod yn cul iawn i fod yn dyffryn llydan ac agored. Y rheswm am hyn yw oherwydd mae fwy o ddwr wedi ymuno gyda'r afonOgwr felly mae angen fwy o le i'r dwr llifo lawr.

**Graff i dangos faint o ddwr sydd yn yr Afon Ogwr**

Wrth i ni dethio lawr yr Afon Ogwr mae'r faint o ddwr yn newid, y rheswm am hyn yw fod llawer o nentydd yn ymuno gyda'r Afon Ogwr sef Afon Alun, Ogwr fach, Llynfi, Garw a hefyd Ewenni. Mae hyn yn creu mwy o ddwr.

**Graff lled yr Afon Ogwr**

Wrth deithio o'r Tarddle i'r Aber yr Afon Ogwr mae afon yn mynd yn fwy llydan oherwydd mae llawer o nentydd yn ymuno sef afon Alun, Ogwr fach, afon Llynfi, Garw a hefyd Ewenni. Felly mae mwy o pwer a hefyd mwy o erydu.

# Gwerthusiad

Dwi'n meddwl bod fy nghywaith yn dangos yn glir y newid sy'n digwydd ar hyd taith yr Afon Ogwr. Er mwyn gwella'r gwaith gallwn wedi:

- Ail ymweld â'r safleoedd ar amser gwahanol o'r flwyddyn e.e.yr Haf er mwyn gweld os oedd unrhyw newidiadau
- Ymweld â'r un safleoedd ar ôl glaw trwm iawn
- Cerdded ar hyd glannau'r afon o un safle i'r safle nesaf e.e. o Nant y Moel i Melin Ifan Ddu
- Tynnu lluniau camera fideo i ddangos llif yr afon yn enwedig wrth Melin Ifan Ddu
- Creu holiadur i ofyn i drigolion y safleoedd e.e. cerddwyr a ffermwyr am eu sylwadau nhw am yr afon.
- Casglu tystiolaeth hanesyddol am yr afon e.e. gwybodaeth am lifogydd
- Casglu lluniau o'r awyr i ddangos yr ystumiau a'r gorlifdir
- Casglu samplau o ddŵr a'u mesur i ddangos effaith llygredd

Yn y dyfodol fe fydd yr afon yn dal i erydu'r tir . Bydd yr ystumiau yn datblygu ac yn tyfu'n fwy a dyddodi yn digwydd yn enwedig wrth aber yr afon.

Fe fydd angen i'r Cyngor lleol wneud yn siwr bod neb yn gadael sbwriel wrth yr afon a meddwl sut i ddenu pobl i edrych ar ôl yr afon. Dwi'n gobeithio fe fydd mwy o gyfleoedd i bobl wethfawrogi yr afon gyda canolfannau natur ac ymwelwyr.

Cwestiynnau eraill y gallwn fod wedi gofyn yw:

1. Sut mae pobl yr ardal yn dylanwadu ar yr afon?
2. Sut mae'r afon yn dylanwadu ar bobl yr ardal?
3. Sut mae'r Afon Ogwr yn cymharu gyda'r Afon Taf?
4. Pa fywyd gwyllt sydd yn byw yn yr afon ac ar y glannau?

## Ymchwilio | ’Pobl a’r blaned’ Pam mae pobl yn symud o gefn gwlad i’r ddinas mewn gwledydd datblygol?

Roedd yr asesiad hwn yn tarddu o waith oedd yn cyfuno tair agwedd ar yr Ystod: ’Pobl a’r blaned’, ’Y byd cyfoethog a’r byd tlawd’, a ’Tref a gwlad’. Roedd hefyd yn darparu cyfle i ymchwilio i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Yn dilyn uned a oedd yn canolbwyntio ar batrymau, a newid a symud poblogaeth, aeth y disgyblion ymlaen i ymchwilio i faterion ynglŷn â mudo rhwng gwlad a thref a datblygiad cynaliadwy mewn gwlad ddatblygol.

Gwnaeth y disgyblion ymchwil annibynnol a gofynwyd iddyn nhw gyflwyno eu canfyddiadau i weddill y dosbarth. Defnyddiodd aelodau’r dosbarth y meini prawf i asesu cyfraniadau ei gilydd a darparu adborth. Dewisodd Carys lunio cyflwyniad PowerPoint.

Ar gyfer ei chyflwyniad, mae Carys wedi cynnal ymchwiliad annibynnol a chymhwyso ei gwybodaeth a dealltwriaeth o ddaearyddiaeth i le penodol. Gosododd hi’r astudiaeth achos mewn cyd-destun lleoliadol eglur a’i chysylltu â phatrymau daearyddol, e.e. tirwedd. Yn ei chyflwyniad ar lafar, roedd hi’n gallu disgrifio ac esbonio’r prosesau sy’n gysylltiedig â mudo rhwng gwlad a thref yn y wlad a disgrifio rhai o’r ffyrdd roedd y prosesau yn rhyngweithio â’i gilydd. Roedd hi’n gallu uniaethu â sylwadau a barn croes ac yn eu gwerthuso er mwyn ffurfio a chyfiawnhau ei sylwadau ei hun a chynnig datrysiadau. Yna, ystyriodd oblygiadau ar gyfer y dyfodol ac awgrymu ffyrdd o ddatrys y mater yn gynaliadwy. Ychydig o’i chyflwyniad yn unig sydd wedi ei gynnwys yma.








Pam a Sut Fod Ffordd o fyw y Quechua wedi newid ?
Arian ...
Mae llawer yn symud i Lima er mwyn ennill mwy o arian i fod yn hapusach yn ei fywyd
Galw am fwy o dewis ...
1. Fwyd
2. Dillad
3. swydd
technoleg ...
Nid oes tractorion yn yr Andes i helpu gyda ffermio na chwaith dim tren neu ceir am gludiant
Ond hefyd pethau fel trydan a golau


Ydy Bywyd Yn Gwella Ar Ol Cyrraedd Lima ?
Na ! Aeth yn waeth doedd gen i ddim ,dim addysg , arian , na teulu yma felly roedd rhaid i mi byw mewn shanty town bydr efo llawer o pobl arall yn yr un sefyllfa
Weithiau mae fy pobl fel fi yn lwcus ac yn cael swydd ac yn gallu fforddio tŷ ansawdd isel ond rhanfwyaf o'r amser nid yw hynnu'n wir


Ydy'r Quechua yn hapusach yn Lima ?
Yn fy marn i na oherwydd :-
Er roedd ei fywyd yn galed yn yr Andes roedd ddwywaith mor galed yn Lima ac er mae arian yn helpu wneud nhw'n hapus ydy e werth e
Gadael ei cartref a llawer o'i teulu a mynd i le dieithr ond i cale byw mewn tlodi , bydreddu a ......
Wel dyna gyd
Nid llawer i fod yn hapus amdano oes na ?
Ond am y rhai lwcus neu ifanc sydd yn cael tipyn o addysg neu arian gall y profiad fod yn un hapus


Oes dyfodol i'r ffordd draddodiadol o fyw y Quechua ?
EFALLAI ! ! !
Gwthio o'r Andes
Dim digon o elw yn cael i wneud i cefnogi y teulu
Mae'r waith yn galed iawn am yr ychydig o arian maent yn ennill
Mae'r hinsawdd yn anodd i byw ynddo
Does bron ddim cymdeithas am y ffaith fod y Quechua wedi gwasgaru allan gymaint
Tynnu i'r Dinas
mae cymdeithasu yn haws
mae mwy o swyddi ac mwy o arian
mae yna ysbytai ac ysgolion ac mae teithio yn haws
mae mwy o anrhywiaeth fwyd ac mae'r tai yn well ac gall cyfathrebu fod yn haws hefyd ar draws y ffon


Beth yw ffordd o fyw y Quechua ?
Mae'r Quechua yn ffremio al paca er mwy nyddu ei gwlan i wneud gwlan i dillad er mwyn gwerthu neu gwisgo eu
Dyma engrhaifft o'r fath o dillad mae'r Quechua yn mor dda am wneud
Llun o ty
Mae'r tai wedi wneud o briciau mwd ac yn un llawr yn unig ond gall hyd at 10 pobl byw yn y ty yma


Oes dyfodol i'r ffordd draddodiadol o fyw y Quechua ?
NA ? ? ?
Gwthio o'r Andes
Dim digon o elw yn cael i wneud i cefnogi y teulu
Mae'r waith yn galed iawn am yr ychydig o arian maent yn ennill
Mae'r hinsawdd yn anodd i byw ynddo
Does bron ddim cymdeithas am y ffaith fod y Quechua wedi gwasgaru allan gymaint
Tynnu i'r Dinas
mae cymdeithasu yn haws
mae mwy o swyddi ac mwy o arian
mae yna ysbytai ac ysgolion ac mae teithio yn haws
mae mwy o anrhywiaeth fwyd ac mae'r tai yn well ac gall cyfathrebu fod yn haws hefyd ar draws y ffon

**Crynodeb a barn gyffredinol**

Ystyriwyd Lefelau 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ei holl waith, mae Carys yn dangos gallu gwirioneddol i gynllunio, darparu a chyflwyno ei gwaith yn dra annibynnol. Mae'r enghreifftiau yma yn dangos ei bod hi'n gallu *cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod eang o leoedd, amgylcheddau a materion ar raddfeydd amrywiol* (nodwedd o Lefel 7). Mae hi'n gallu *nodi ac yn esbonio patrymau daearyddol a sut y mae lleoedd a phatrymau wedi'u cydgysylltu* (nodwedd o Lefel 7), e.e. ar hyd cwrs afon.

Wrth ysgrifennu am losgfynyddoedd, cynhesu byd-eang, a mudo rhwng gwlad a thref, mae hi'n *esbonio amrywiaeth o nodweddion a phrosesau ffisegol a dynol* (nodwedd o Lefel 7) ac yn disgrifio'r rhyngweithio o fewn a rhwng prosesau, e.e. rhwng erydu a dyddodiad wrth i dirffurfiau afon gael eu ffurfio. Yn ei gwaith ar ddatgoedwigo, mae hi'n *disgrifio sut y mae pobl yn cael gwahanol effaith ar yr amgylchedd* ac yn *deall sut y gall newid gael ei reoli mewn modd cynaliadwy* (nodweddion o Lefel 7).

Yn dra annibynnol, mae hi'n casglu, cofnodi ac ymchwilio i ddata a gwybodaeth o'r gwaith maes, a ffynonellau eilaidd er mwyn cynllunio a threfnu ymchwiliadau yn effeithiol. Yn ei holl ymchwiliadau, mae hi'n dangos ei bod hi'n gallu *dadansoddi tystiolaeth* o waith maes ac eilaidd *i lunio a chyfiawnhau esboniadau dilys a chasgliadau a brofwyd* (nodweddion o Lefel 7). Er y gallai rhai agweddau ar y gwaith hwn ddangos nodweddion Lefel 6, o edrych ar y gwaith yn ei gyfanrwydd, mae ei amgyffrediad cyffredinol ar ddeall a chwblhau tasg cymhleth yn dystiolaeth o ddisgybl sy'n gweithio'n gyffredinol ar Lefel 7.

Yn ei gwaith ar achosion a chanlyniadau mudo ym Mheriw, mae Carys yn *gwerthuso safbwyntiau a barn sy'n gwrthdaro*, ac yn ystyried goblygiadau ar gyfer y dyfodol i'w *helpu i ffurfio a chyfiawnhau ei safbwyntiau ei hun, ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus* ar ddatblygiad cynaliadwy (nodweddion o Lefel 7). Mae ei gwaith yn dangos ei bod hi'n gallu *dewis a defnyddio termau daearyddol yn fanwl gywir* (nodwedd o Lefel 7). Mae hi'n defnyddio *amrywiaeth o dechnegau priodol i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol* (nodwedd o Lefel 8), e.e. llinfapiau, graffiau, diagramau a lluniau anodedig, a TGCh.

Mae Carys yn ddisgybl galluog iawn sy’n gweithio ar lefel uchel. Gellid barnu bod rhai agweddau ar y gwaith ar eu pennau eu hunain, e.e. canlyniadau’r ymchwiliad i’r afon, yn nodweddiadol o waith is na Lefel 7. Fodd bynnag, mae Carys wedi cynhyrchu peth gwaith o safon Lefel 8, a byddai hi’n gallu cyflawni Lefel 8 gydag ychydig mwy o arweiniad. Mae angen iddi hi esbonio ymhellach sut y llunnir ac y newidir patrymau daearyddol, e.e. trwy ddatblygu’r ymatebion ynghylch basnau afon, a sut mae pobl ac amgylcheddau yn cydgysylltu. Mae angen iddi hi ddatblygu ei dadansoddi o ddata a’i chyfiawnhau o gasgliadau ymhellach. Dylid darparu cyfleoedd iddi hi werthuso ffaith a barn ac adnabod tuedd.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer y Dyniaethau a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i Eryl Samuel am ei gymorth amhrisiadwy ac i'r Grŵp Llywio, Jan Bond, Andy Freem, Rhys Huws, Jane Jones, Manon Lewis, Huw Raw Rees, Helen Turner, Lisa Mead a Nigel Vaughan (Estyn) a rhoddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Eifionydd, Gwynedd
Ysgol Gyfun Dwyieithog Presili, Sir Benfro
Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe
Ysgol Gyfun Llanhari, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymraeg Llantrisant, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymraeg Rhyd-y-grug, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin, Caerffili
Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth, Caerdydd
Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili, Caerffili
Ysgol Gynradd Hirwaun, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Nantgaredig, Sir Gâr
Ysgol Pencae, Caerdydd
Ysgol Santes Tudful, Merthyr Tudful.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn:

Brittany Ferries (tudalennau 44 a 47)
GCaD Cymru (tudalennau 51 a 63)
Photolibrary Wales (tudalennau 52, 61, 64)
Action Aid (tudalen 57)
Dr Paul Webber a Mrs Olive Dyer (tudalen 65).